
Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

# Adroddiad a Chyfrifon 2024-25



**Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol**

**Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2024-2025**

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 40(5) o Ddeddf Osteopathiaid 1993

© Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol 2025

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu yn gywir ac mewn cyd-destun nad yw'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod mai deunydd dan hawlfraint y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw hwn a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn at y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, anfonwch e-bost at **info@osteopathy.org.uk** neu ffoniwch **020 7357 6655**.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar ein gwefan: **osteopathy.org.uk/annualreport**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Gwybodaeth am y Cyngor Osteopathig Cyffredinol | 6 |
| 2. Cyflwyniad gan Gadeirydd y Cyngor | 8 |
| 3. Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd | 9 |
| 4. Ein nodau strategol | 10 |
| 5. Ein trefniadau llywodraethu, rheoli a'n risgiau | 12 |
| 6. Sut gwnaethom berfformio yn erbyn ein nodau strategol yn 2024-25 | 15 |
| 7. Effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a pherfformiad gweithredol | 22 |
| 8. Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf | 24 |
| 9. Adroddiad a chyfrifon blynyddol 2024-25 | 26 |

# 1 Gwybodaeth am y Cyngor Osteopathig Cyffredinol


Sefydlwyd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993, ac mae ganddo ddyletswydd statudol i reoleiddio a datblygu'r proffesiwn osteopatheg yn y DU i sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu.

Rydym yn gweithio gydag osteopathiaid, cleifion a sefydliadau partner i gefnogi gofal diogel o ansawdd uchel i gleifion. Rydym hefyd yn gweithio i gynnal hyder y cyhoedd mewn osteopatheg drwy ddiogelu enw da'r proffesiwn.

Rydym yn gwneud hyn drwy ddiweddaru ein Cofrestr gyhoeddus o osteopathiaid, a thrwy hyrwyddo safonau ymarfer ac ymddygiad uchel, gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant osteopathig, ymchwilio i bryderon ynghylch osteopathiaid, a diogelu'r teitl osteopathig rhag cael ei gamddefnyddio.

Dyma werth rheoleiddio (gweler y graffigyn isod): diogelu'r cyhoedd drwy sicrhau bod osteopathiaid yn cynnal eu gwybodaeth a'u sgiliau; gweithio o fewn fframwaith cyfreithiol a moesegol; cydweithio ag osteopathiaid eraill a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill; a helpu i feithrin a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.

## Gwerth rheoleiddio



## Ein rôl

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr ar gyfer osteopathiaid yn y Deyrnas Unedig. Yn ôl y gyfraith, rhaid i osteopathiaid fod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol i ymarfer yn y DU.

Ein rôl ni yw diogelu iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd, a diogelu enw da'r proffesiwn osteopathig. Rydym yn gyfrifol am sicrhau bod y cyhoedd yn parhau i fod â hyder yn y proffesiwn osteopatheg, ac rydym yn gyfrifol am y safonau proffesiynol y mae'n rhaid i osteopathiaid a myfyrwyr osteopathig eu dilyn er mwyn ymarfer yn ddiogel.

Beth rydym ni'n ei wneud:

- Cadw Cofrestr o bawb sy'n cael ymarfer osteopathi yn y DU.
- Gweithio gyda'r cyhoedd, cleifion a'r proffesiwn osteopathig i benderfynu ar safonau ansawdd uchel o ymarfer ac ymddygiad osteopathig, a'u cynnal a'u datblygu.
- Helpu cleifion gydag unrhyw bryderon maen nhw'n eu codi am osteopath a bod â'r grym i dynnu unrhyw osteopathiaid o'r Gofrestr, nad ydynt yn bodloni'r safonau proffesiynol ac nad ydynt yn addas i ymarfer.
- Gwirio ansawdd addysg osteopathig a phenderfynu ar y safonau ymarfer y mae'n rhaid i fyfyrwyr osteopathig eu dangos cyn iddynt raddio.
- Diogelu'r teitl osteopathig rhag cael ei gamddefnyddio drwy sicrhau mai dim ond y rheini sydd â'r cymwysterau cywir a chofrestriad dilys a chyfredol sy'n gallu galw eu hunain yn osteopath.
- Gwneud yn siŵr bod osteopathiaid yn cynnal gweithgareddau i gefnogi eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Amcanion statudol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw ei amcanion elusennol hefyd. Drwy gyflawni ein hamcanion statudol fel yr amlinellir drwy'r gweithgareddau yn yr adroddiad hwn, mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn aelodau o'r Cyngor) yn gallu cadarnhau eu bod wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn elusen sydd wedi'i chofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ac wedi bod ers mis Ebrill 2017 (rhif cofrestru 1172749).

Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn wedi cael eu cyflwyno gerbron dau Dŷ'r Senedd a'u cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau.

# 2 Cyflwyniad gan Gadeirydd y Cyngor

Mae fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi bod yn ddiddorol iawn ac rwyf wedi bod yn falch o gwrdd â llawer o'n rhanddeiliaid allanol a gweithio gyda nhw.



Un o'm prif feysydd o ffocws dros y flwyddyn ddiwethaf fu recriwtio aelodau newydd i'r Cyngor, gan fod nifer o'n haelodau wedi dod i ddiwedd eu cyfnod yn ddiweddar. Mae wedi bod yn dda cynefino aelodau lleyg ac aelodau cofrestredig newydd (ac aelod Cyswllt newydd), ac i adeiladu tîm y Cyngor.

Rwy'n falch bod y tîm gweithredol wedi cyrraedd 'Safonau Rheoleiddio Da' yr Awdurdod Safonau Proffesiynol unwaith eto.

Gwn fod mwy o waith i'w wneud bob amser. Derbyniodd y Cyngor ganlyniadau arolwg cyntaf unigolion cofrestredig y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yr haf hwn. Mae hyn wedi rhoi gwybodaeth eang a manwl i ni am yr hyn y mae ein rhanddeiliaid ei eisiau a'i angen gennym ni, a rhai meysydd clir y gallwn ganolbwyntio arnynt i wella ein dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod y sector addysg uwch yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd, ac nid yw osteopatheg yn eithriad i hyn.

Rwy'n bwriadu i ni, fel Cyngor, ymgysylltu mwy â'r proffesiwn dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Roeddwn yn falch o fynychu cynhadledd y Sefydliad Osteopatheg yn Llundain ym mis Tachwedd, a chynrychioli'r DU yng nghynhadledd Osteopathi Ewrop yn Lwcsembwrg yn yr hydref. Rydw i wedi dechrau ymweld â'r darparwyr addysg osteopathig a byddaf yn parhau â hyn yn y flwyddyn i ddod.

Yn olaf, dyma nodyn i'ch atgoffa bod croeso i unrhyw un sydd â diddordeb ddod i gyfarfodydd ein Cyngor wyneb yn wyneb neu ar-lein. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cofrestru ymlaen llaw, felly anfonwch e-bost at **council@osteopathy.org.uk**. Byddem yn falch iawn o'ch gweld.



**Jo Clift**
Cadeirydd y Cyngor
15 Gorffennaf 2025

# 3 Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd

Blwyddyn fusnes 2024-25 yw blwyddyn gyntaf Strategaeth newydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.



Carreg filltir arwyddocaol eleni oedd cyhoeddi'r canlyniadau a ddeilliodd o'r arolwg annibynnol o ganfyddiadau unigolion cofrestredig a rhanddeiliaid o'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Mae canlyniadau'r ymchwil yn rhoi hwb ac egni newydd i dîm y Cyngor Osteopathig Cyffredinol i newid a gwella sut rydym yn gweithio.

Rydym ni'n gwybod bod camsyniadau ynghylch ein gwaith y mae angen i ni eu cywiro; rydym ni'n gwybod nad yw ymddiriedaeth ynom ni fel rheoleiddiwr mor uchel ag y byddem yn dymuno; ac rydym ni'n gwybod bod ofn yn gysylltiedig â'n gwaith, fel o ran addasrwydd i ymarfer.

Clywsom y canlyniadau ac rydym yn gweithredu.

Ers yr arolwg, rydym wedi cyflwyno sianeli cyfathrebu newydd i alluogi osteopathiaid i gysylltu â thîm staff y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Rydym yn cynnal sesiynau galw heibio wythnosol lle gall osteopathiaid fewngofnodi i ddolen Zoom a gofyn unrhyw gwestiynau'n uniongyrchol i staff y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, ac rydym wedi cyflwyno sianel WhatsApp newydd sy'n boblogaidd gydag osteopathiaid sydd wedi ei defnyddio.

Rydym hefyd yn parhau i hyrwyddo'r Gwasanaeth Cymorth Annibynnol cyfrinachol am ddim, sydd ar gael i bob parti, gan gynnwys osteopathiaid, sy'n canfod eu hunain yn rhan o'r broses addasrwydd i ymarfer.

Ac rwy'n falch iawn bod y Cyngor wedi cytuno i neilltuo adnoddau i uwchraddio gwefan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, yr ydym i gyd yn cydnabod ei bod wedi dyddio ac nad yw'n caniatáu i ni gyfathrebu ac ymgysylltu â'r proffesiwn mor hawdd ag yr hoffem. Mae hwn yn brosiect cyffrous, ac edrychwn ymlaen at rannu rhagor o newyddion am y datblygiad hwn yn y flwyddyn i ddod.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein gwaith eleni, yn enwedig fy nhîm staff, yr adlewyrchir eu hymdrechion yn y flwyddyn lwyddiannus rydym yn adrodd arni yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol hyn.

**Matthew Redford**
Prif Weithrewr a Chofrestrydd
15 July 2025

# 4 Ein nodau strategol

## Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn adlewyrchu gwaith y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025

Mae ein **Strategaeth, sy'n mynd fynd â ni o 2024 hyd at 2030**, yn nodi ein hymrwymiad i barhau i berfformio fel rheoleiddiwr gofal iechyd effeithiol iawn, gan gynyddu ein dealltwriaeth o sut mae ein camau gweithredu yn gallu effeithio ar yr ymddiriedaeth rhwng y Cyngor Osteopathig Cyffredinol - fel y rheoleiddiwr ar gyfer osteopatheg – a'r proffesiwn a chleifion, neu wella ar yr ymddiriedaeth hon.

Nod ein strategaeth yw:

- disgrifio'r hyn y mae Cyngor y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn dymuno i'r sefydliad ei gyflawni
- pennu cyfeiriad gwaith y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, dan arweiniad y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd
- darparu fframwaith i'r Cyngor fonitro perfformiad y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

## Mae ein Strategaeth yn nodi ein tri nod strategol:

### Cryfhau ymddiriedaeth:

Byddwn yn gweithio i wella ein perthynas â'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn i ni allu helpu i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd.

### Hyrwyddo cynhwysiant:

Mae'n bwysig i ni fod pobl sy'n rhyngweithio â ni, neu sy'n gweithio i ni, yn gallu bod yn nhw eu hunain a'n bod yn deall ac yn chwalu unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny.

### Croesawu arloesedd:

Byddwn yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd i wella'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei gyflawni, fel ein bod ni'n parhau i wella fel sefydliad.

## Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd

Mae ein nodau strategol yn seiliedig ar ein gweledigaeth a'n gwerthoedd.

**Ein gweledigaeth** yw bod yn rheoleiddiwr cynhwysol ac arloesol y mae pawb yn ymddiried ynddo.

Mae **ein gwerthoedd** yn sail i'r ffordd rydym yn gweithio nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sut rydym yn gweithio gyda chleifion, y cyhoedd, osteopathiaid a rhanddeiliaid, a sut rydym yn gweithio yn ein sefydliad. Rydym yn cydweithio i fod yn rheoleiddiwr dylanwadol a pharchus gyda dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

### Cydweithredol

Rydym yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau bod cleifion ac osteopathiaid yn rhan ganolog o'n ffordd o reoleiddio.

### Dylanwadol

Rydym yn ceisio cefnogi a datblygu'r rhai yr ydym yn gweithio gyda nhw er mwyn cynyddu diogelwch y cyhoedd.

### Parchus

Rydym yn ceisio clywed, deall ac ystyried barn y bobl yr ydym yn ymwneud â nhw.

### Ystyriol o'r dystiolaeth

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i dywys ein gwaith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion a'r cyhoedd.

# 5 Ein trefniadau llywodraethu, rheoli a'n risgiau

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cynnwys Cyngor, pwyllgorau a thîm gweithredol bach. Nododd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol y prif risgiau mewn nifer o feysydd yn 2024-25 ynghyd â chamau lliniaru allweddol.

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cynnwys 10 aelod - pum aelod lleyg a phum cofrestredig. Cefnogir y Cyngor yn ei waith llywodraethu gan bron i 40 o aelodau lleyg ac aelodau cofrestredig ar ein pwyllgorau statudol ac anstatudol, yn ogystal ag aseswyr cofrestru, aseswyr cyfreithiol, cynghorwyr meddygol ac eraill. Mae aelodau'r Cyngor hefyd yn ymddiriedolwyr elusennol, sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993 a deddfwriaeth arall.

Mae bywgraffiadau cryno o aelodau presennol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn: **osteopathy.org.uk/council**

## Pwyllgorau'r Cyngor

Cefnogir y Cyngor i gyflawni ei amcanion gan nifer o bwyllgorau statudol ac anstatudol. Mae tri phwyllgor i'r Cyngor: y Pwyllgor Polisi ac Addysg; y Pwyllgor Archwilio; a'r Pwyllgor Pobl.

Mae pob pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r Cyngor ac aelodau allanol penodedig. Penodir aelodau allanol gan y Cyngor dan arweiniad y Pwyllgor Pobl.

Mae gwybodaeth am ein pwyllgorau, gan gynnwys aelodaeth pob un, ar gael ar ein gwefan: **osteopathy.org.uk/committees**

**Presenoldeb aelodau'r Cyngor yng nghyfarfodydd y Cyngor a phwyllgorau**

Mae aelodau unigol hefyd yn mynychu gweithgorau, diwrnodau hyfforddi a datblygu, cyfarfodydd ad hoc ac arfarniadau drwy gydol y flwyddyn.

| Enw | Cyngor | Pwyllgor Polisi ac Addysg | Archwilio | Pobl |
|---|---|---|---|---|
| Jo Clift | 5/5 | | | |
| Daniel Bailey | 5/5 | 4/4 | | |
| Harry Barton | 5/5 | | 4/4 | 3/3 |
| Gill Edelman | 4/5 | 3/4 | | |
| Elizabeth Elander | 4/5 | | | 3/3 |
| Sandie Ennis | 5/5 | | 3/4 | 3/3 |
| Caroline Guy* | 4/5 | 1/1* | 4/4 | |
| Simeon London | 5/5 | 4/4 | | |
| Patricia McClure | 5/5 | 4/4 | | |
| Chris Stockport** | 3/3 | 1/2 | | 0/1 |

* Cyfetholwyd Caroline Guy i'r Pwyllgor Polisi ac Addysg ar 6 Mehefin 2024 i sicrhau bod yr isafswm o aelodau yn bresennol oherwydd gwrthdaro rhwng buddiannau oedd gan aelodau eraill o'r Pwyllgor

**Roedd Christ Stockport yn aelod rhwng Medi 2024 a Chwefror 2025

## Pwyllgorau addasrwydd i ymarfer annibynnol

Mae tri phwyllgor yn cefnogi swyddogaethau addasrwydd i ymarfer y Cyngor Osteopathig Cyffredinol:

- y Pwyllgor Ymchwilio
- y Pwyllgor Iechyd
- y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu'r pwyllgorau hyn, ond mae eu penderfyniadau'n annibynnol ar Gyngor y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

Mae'r pwyllgorau'n gweithredu fel paneli, sydd fel arfer â thri neu bum aelod i ystyried pryderon ac achosion a atgyfeiriwyd atynt.

Penodir aelodau'r pwyllgor gan y Cyngor yn dilyn proses recriwtio gyhoeddus ac o dan arweiniad y Pwyllgor Pobl.

Mae gwybodaeth am y Pwyllgorau Addasrwydd i Ymarfer, gan gynnwys aelodaeth pob un, ar gael ar ein gwefan. Gweler y wybodaeth am holl bwyllgorau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol: **osteopathy.org.uk/committees**

## Tîm Gweithredol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Mae gweithrediadau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cael eu rheoli o ddydd i ddydd gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, yr Uwch Dîm Rheoli a staff eraill.

Mae Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cynnwys:

- Matthew Redford, Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd
- Fiona Browne, Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Datblygu
- Sheleen McCormack, Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer a Chwnsler Cyffredinol

## Ymgynghorwyr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

**Archwilwyr**
HaysMac LLP
10 Queen Street Place
Llundain EC4R 1AG

**Bancwyr**
Royal Bank of Scotland
62-63 Threadneedle Street
Llundain EC2R 8LA

## Ein risgiau

Mae'r prif risgiau a nodwyd yn 2024-2025 gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn parhau i fod fel y disgrifir y llynedd. Fodd bynnag, rydym wedi cryfhau ein camau lliniaru, gan gynnwys comisiynu archwiliad o benderfyniadau Addasrwydd i Ymarfer cam cychwynnol, nad oeddent yn dangos unrhyw feysydd sy'n peri pryder ond a oedd yn darparu rhywfaint o ganllawiau defnyddiol.

| Maes risg | Camau lliniaru |
|---|---|
| Dyheadau strategol yn cael eu tanseilio gan bwysau ar gynaliadwyedd | Monitro incwm a gwariant yn agos gan ganiatáu i'r Cyngor ystyried blaenoriaethau strategol a gwneud cynlluniau tymor hwy o ran defnyddio adnoddau. |
| Seilwaith TG ddim yn gallu cefnogi gweithgarwch y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a/neu raglen drawsnewid y dyfodol | Archwiliadau TG annibynnol i asesu'r dull o ymdrin â diogelwch TG. Uwchraddio cronfa ddata unigolion cofrestredig y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a datblygiad wedi'i gynllunio o wefan newydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. |
| Maint a chymhlethdod yr achosion addasrwydd i ymarfer | Mecanweithiau adolygu sicrwydd ansawdd cynhwysfawr a chyson ochr yn ochr â rhaglen hyfforddi barhaus ar gyfer aelodau'r panel. |

**Dyheadau strategol yn cael eu tanseilio gan bwysau ar gynaliadwyedd:**

Fel sefydliad sydd ag un brif ffynhonnell incwm, rydym yn cydnabod y byddai ein huchelgeisiau strategol fel rheoleiddiwr yn cael eu tanseilio pe bai ein hadnoddau'n annigonol. Rydym yn gyfarwydd â chyfansoddiad y Gofrestr i sicrhau ein bod yn ymwybodol a oes unrhyw newid sylweddol yn digwydd a beth allai hyn ei olygu i'n cynlluniau yn y dyfodol. Rydym yn sicrhau bod gennym ddull strwythuredig sy'n canolbwyntio ar risg i reoli ein cronfeydd wrth gefn a'n portffolio buddsoddi.

Rydym yn lliniaru'r risg hon drwy gynllunio ariannol tymor hwy er mwyn i ni allu gwneud penderfyniadau am y ffordd orau o ddefnyddio ein hasedau, ac mae hyn yn cynnwys asedau ffisegol, pobl ac ariannol.

**Seilwaith TG ddim yn gallu cefnogi gweithgarwch y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a/neu raglen drawsnewid y dyfodol:**

Mae risg i TG os nad yw'n rhoi'r diogelwch sydd ei angen arnom, neu os yw hen systemau yn ein hatal rhag gwneud ein gwaith yn effeithlon ac yn effeithiol. I liniaru'r risgiau hyn, rydym yn gweithredu cronfa ddata gofrestru newydd a fydd yn gwella ein heffeithlonrwydd a'n gweithrediad, gyda'r prosiect yn cael ei gefnogi gan ymgynghorydd TG arbenigol. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ailddatblygu llwyfannau ein gwefannau, felly mae'r rhain yn adlewyrchu ein dull modern a chynhwysol wrth reoleiddio.

**Maint a chymhlethdod yr achosion addasrwydd i ymarfer:**

Mae gan bob rheoleiddiwr gofal iechyd risgiau sy'n gysylltiedig â nifer a chymhlethdod achosion addasrwydd i ymarfer a'r posibilrwydd o apeliadau yn erbyn penderfyniadau. Mae risgiau'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ac amseroldeb yr achosion sy'n cael eu cwblhau, sy'n gysylltiedig ag un o'n targedau allweddol sy'n cael ei fonitro gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ac ar hyn o bryd mae oedi mewn adroddiadau trydydd parti, fel y rheini gan yr heddlu neu ysbytai, yn effeithio ar ein llwyth achosion.

Er ein bod yn falch bod ein gweithgareddau addasrwydd i ymarfer yn cael eu rheoli mewn ffordd gost-effeithiol, amserol a chymesur, mae ein deddfwriaeth hen ffasiwn yn parhau i fynnu ein bod yn meddwl yn ochrol ac arloesol o ran diwygiadau addasrwydd i ymarfer y gellir eu gweithredu heb orfod troi at newidiadau deddfwriaethol.

# 6 Sut gwnaethom berfformio yn erbyn ein nodau strategol yn 2024-25

## Nod strategol un: Cryfhau ymddiriedaeth

Fe wnaethom gomisiynu cwmni ymchwil annibynnol, DJS Research, i archwilio sut mae osteopathiaid, myfyrwyr, addysgwyr a sefydliadau partner yn ystyried y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, gan gynnwys sut rydym yn perfformio ein rôl fel rheoleiddiwr.

Roeddem am wybod i ba raddau y mae'r proffesiwn yn deall ein rôl, a sut maent yn credu ein bod yn perfformio fel y rheoleiddiwr, i nodi lle mae angen i ni ganolbwyntio ein hadnoddau, a lle mae angen i ni wneud newidiadau. Rydym yn rhoi cryfhau ymddiriedaeth wrth galon ein Strategaeth ar gyfer 2024 i 2030. Roeddem am allu mesur faint y mae'r proffesiwn yn ymddiried ynom nawr a'u barn amdanom, i'n helpu i wella a mesur effaith ein gwaith parhaus.

Roedd yr ymchwil, a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2024, yn cynnwys arolwg osteopathiaid a myfyrwyr, cyfweliadau manwl ag osteopathiaid, myfyrwyr ac addysgwyr, a grwpiau ffocws â sefydliadau partner. Cafodd yr arolwg gyfanswm o 629 o ymatebion (gan osteopathiaid ac 11 ymateb gan fyfyrwyr), a chymerodd 24 o bobl ran yn y cyfweliadau.

### Canfyddiadau ymchwil annibynnol

Dangosodd y canfyddiadau fod gan lawer o ymatebwyr ganfyddiadau negyddol o'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, yn seiliedig yn bennaf ar brofiadau osteopathiaid eraill a rhai camddealltwriaethau cyffredin ynghylch ein rôl. Canfuwyd bod y rheini sydd â barn gadarnhaol am y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn fwy tebygol o fod wedi cael profiadau uniongyrchol gyda ni ac â gwell dealltwriaeth o'n rôl. 'Ofn' ac 'angenrheidiol' oedd y ddau air mwyaf cyffredin a oedd yn gysylltiedig â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Roedd y sgyrsiau'n tynnu sylw at rai o'r prif ffynonellau o ofn, gan gynnwys y broses o ymchwilio i bryderon a godir yn erbyn osteopathiaid, a thôn rhai o gyfathrebiadau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol â'r proffesiwn.

Gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad o'r canfyddiadau ac rydym yn rhoi cynllun gweithredu ar waith i gymryd y camau nesaf tuag at gryfhau ymddiriedaeth gydag osteopathiaid a'r proffesiwn.

### Camau a gymerwyd i gynyddu ymddiriedaeth

Er mwyn helpu i wella dealltwriaeth o'n rôl, rydym wedi diweddaru ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol. Rydym wedi cynhyrchu ac yn hyrwyddo offeryn chwalu'r chwedlau i helpu i fynd i'r afael â'r camddealltwriaethau cyffredin am y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a helpu i gynyddu eglurder ynghylch ein rôl ymysg y proffesiwn.

Er mwyn ein helpu i fod yn fwy hygyrch, rydym wedi gwella ein gwybodaeth gyswllt a sut mae ein system ffôn wedi'i sefydlu. Rydym wedi dechrau cyhoeddi mwy o broffiliau staff i ddangos ein bod ni fel sefydliad yn falch o gynnwys ein staff. Rydym yn parhau i annog osteopathiaid, addysgwyr a myfyrwyr yn gyson i fynychu cyfarfodydd ein Cyngor, sy'n gyhoeddus.

Er mwyn helpu i gynyddu ymddiriedaeth, rydym wedi sicrhau ein bod yn dangos ein bod yn fwy hygyrch i osteopathiaid sy'n dymuno siarad â ni. Rydym wedi cynyddu ac amrywio'r ffyrdd y gall osteopathiaid gysylltu â ni, er enghraifft:

- Ym mis Ionawr, fe wnaethom lansio ein sianel Whatsapp newydd. Rydym yn derbyn mwy a mwy o negeseuon bob mis, ac rydym yn ymateb yn gyflym i ymholiadau. Mae'r adborth hyd yma wedi bod yn gadarnhaol iawn.
- Rydym yn cynnig sesiynau galw heibio ar-lein wythnosol yn rheolaidd er mwyn i osteopathiaid allu cwrdd â staff ar draws y sefydliad a gofyn cwestiynau, awgrymu syniad neu drafod mater heb agenda benodol. Er mwyn ei gwneud yn hawdd i osteopathiaid, mae staff ar gael ar yr un pryd bob wythnos ac nid oes angen archebu lle. Rydym wedi cael trafodaethau diddorol hyd yma sy'n amrywio o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, pontio o addysg i ymarfer, a sut i lenwi adran gynllunio Adolygiad Trafodaeth Cymheiriaid ar gyfer cylch datblygiad proffesiynol parhaus nesaf osteopath.
- Mae cyfleoedd wedi cael eu cyflwyno ar gyfer galwadau fideo i'r osteopathiaid a'r myfyrwyr hynny y mae'n well ganddynt weld â phwy y maent yn siarad.
- Rydym wedi ymrwymo i ailddatblygu gwefannau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

Rydym wedi diweddaru ein cyfres o ohebiaeth adnewyddu unigolion cofrestredig gan ystyried effaith y rhain ar lawer o osteopathiaid, gyda'r bwriad o wella'r naws a gwneud y cynnwys yn fwy defnyddiol.

Rydym hefyd wedi cynhyrchu llinell amser sy'n dangos y broses addasrwydd i ymarfer fel enghraifft o'r gwaith a wnawn i fod yn agored ac yn dryloyw, a cheisio helpu i leihau ofn a chynyddu dealltwriaeth o'r broses hon. Cafodd hon ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn yr Adroddiad Blynyddol Addasrwydd i Ymarfer sy'n egluro sut rydym yn delio â'r pryderon addasrwydd i ymarfer a dderbyniwn a'r amserlenni ar gyfer rheoli'r pryderon hynny. Cafodd adroddiad eleni ei gyflwyno'n wahanol gydag esboniadau mwy cryno ynghylch sut rydym yn rheoli pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer.

## Estyn allan

Ym mis Ionawr, fe wnaethom gwrdd ar-lein â'r Ymgynghorydd Ymgysylltu Cenedlaethol yn Asiantaeth Rheoleiddio Ymarferwyr Iechyd Awstralia (AHPRA), i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd. Mae'r AHPRA wedi gwneud llawer iawn o waith ar garedigrwydd wrth reoleiddio, ac rydym yn awyddus i ddysgu o hyn. Yn ei dro, roeddem yn gallu rhannu ein gwybodaeth, gan gynnwys y ffaith ein bod yn darparu gwasanaeth cymorth annibynnol sy'n gyfrinachol ac am ddim i unrhyw un sy'n ymwneud â'n proses addasrwydd i ymarfer.

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth ag osteopathiaid drwy fynychu cyfarfodydd grŵp rhanbarthol, gan roi cyflwyniadau ar bynciau fel proffesiynoldeb a terfynau. Rydym hefyd wedi rhoi cyflwyniadau i fyfyrwyr ar bynciau fel rheoleiddio, yn ogystal â chynnig cefnogaeth barhaus mewn perthynas ag ymholiadau moesegol. Rydym yn parhau i gwrdd â'n rhwydwaith o berthnasoedd sefydliadau partner a'u hehangu i helpu i lywio ein cynllun gweithredu mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn.

Rydym hefyd yn ehangu ein hymgysylltiad â'r addysgwyr ôl-raddedig i gynyddu eglurder a thryloywder ynghylch ein rôl a'n pwrpas ac i helpu i gael dealltwriaeth ddyfnach o'u hanghenion a'u pryderon.

Eleni, cynhaliwyd diwrnod datblygu ar gyfer ein Pwyllgor Polisi ac Addysg. Am y tro cyntaf, roedd hyn yn cynnwys gwahodd rhanddeiliaid i dreulio amser gyda'r pwyllgor ac i'r pwyllgor wrando ar eu barn ar gyfleoedd cyfredol, heriau a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol ym maes addysg osteopathig.

Drwy gynnal y digwyddiad hwn, hwylusodd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ddeialog a gwell dealltwriaeth rhwng rhanddeiliaid a'r Pwyllgor am rolau a chyd-destun, sy'n cefnogi ein nodau i wella ymddiriedaeth ar draws y proffesiwn.

Ar ôl ystyried canfyddiadau'r arolwg gwerthuso Datblygiad Proffesiynol Parhaus, fe wnaethom ymgynghori ar sefydlu a chynnal terfynau proffesiynol a Chydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn fel elfennau gorfodol o'r Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn nes ymlaen eleni.

Rydym wedi penodi myfyriwr PhD, sy'n cael ei oruchwylio ar y cyd gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a'r Brifysgol Agored i gefnogi ein gwaith ar derfynau.

## Sicrhau ansawdd addysg osteopathig

Rydym wedi treialu dogfen gwerthoedd, diwylliant ac ymddygiad ar gyfer darparwyr addysg, ac ar gyfer ein hymwelwyr sy'n ddarparwyr addysg sicrhau ansawdd (mae ymwelwyr yn osteopathiaid sy'n asesu rhaglenni hyfforddi darparwyr addysg i sicrhau eu bod yn bodloni ein safonau). Datblygwyd y ddogfen hon ar y cyd ag ymwelwyr a darparwyr addysg i sicrhau bod naws yr ymweliad yn glir ac yn eglur, er mwyn helpu i gyfathrebu.

Rydym wedi cydweithio â darparwyr addysg i ymateb i'w hadborth. Rydym wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwyr addysg fel grŵp, ond hefyd yn unigol i ddarparu adborth cynharach ar benderfyniadau a chanlyniadau pwyllgorau. Rydym wedi gweithio'n galed i fyfyrio ar dôn y deunydd cyfathrebu â darparwyr addysg, ac i adeiladu ar agwedd berthynol sicrhau ansawdd.

## Nod strategol dau: Hyrwyddo cynhwysiant

Rydym wedi dechrau ar amrywiaeth o brosiectau a mentrau i hyrwyddo cynhwysiant, o gynnwys cleifion i sefydlu fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn newydd.

### Canllawiau drafft i fyfyrwyr ag anableddau

Gwnaethom gyhoeddi canllawiau drafft ar wahân ar gyfer myfyrwyr a darparwyr addysg ynghylch astudio osteopatheg pan fydd gennych anabledd neu gyflwr iechyd. Am y tro cyntaf, roedd hyn yn cynnwys fersiwn hawdd ei darllen yn dilyn adborth yn y cam cyn-ymgynghori gan fyfyrwyr ag anableddau.

### Cynnwys cleifion

Fe wnaethom gynnal ein diwrnod datblygu fforwm gwybodaeth i gleifion cyntaf a ddaeth â'n cleifion at ei gilydd. Fe wnaethom ddefnyddio hyn i werthfawrogi eu cyfraniadau, yn ogystal â datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o reoleiddio a sgiliau. Roedd hyn yn eu helpu i gyfrannu'n effeithiol ac hefyd yn gyfle iddynt roi adborth ar ddatblygiad ein gwefan.

Gwnaethom gyhoeddi gwerthusiad o'r cyfraniad at ein gwaith o lais y claf a datblygu camau gweithredu i wella'r cyfraniad y mae'n ei wneud.

Mae cydweithio parhaus â chleifion i gael adborth ar wahanol ymgynghoriadau, gan gynnwys yr ymgynghoriad ar Ymddygiad Proffesiynol ac Addasrwydd Myfyrwyr i Ymarfer, ein canllawiau iechyd ac anabledd drafft a'r diweddariad arfaethedig i'n canllawiau ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.

Er mwyn sicrhau bod lleisiau cleifion yn cael eu clywed, rydym yn parhau i hyrwyddo adnoddau sy'n cefnogi cleifion i egluro'n glir beth sy'n bwysig iddynt pan fyddant yn gweld osteopath.

Rydym yn darparu canllawiau ac adnoddau ynghylch Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn ar gyfer osteopathiaid, i gefnogi ymarfer cynhwysol gyda chleifion ac rydym wedi hyrwyddo'r rhain yn ystod y flwyddyn.

### Partneriaid sy'n gleifion

Rydym wedi dechrau recriwtio dau bartner sy'n gleifion a fydd yn ymuno â'r Cyngor fel rhan o raglen beilot. Y nod yw cynnwys safbwynt y claf ac i'r partneriaid sy'n gleifion weithredu fel 'ffrindiau beirniadol' i'r Cyngor i wella ein proses o wneud penderfyniadau. Bydd hyn yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed wrth wneud penderfyniadau strategol.

### Recriwtio anweithredol

Yn ystod y flwyddyn hon, fe wnaethom ddelio â 404 o geisiadau, sef y nifer fwyaf o geisiadau i ni eu cael erioed gan ymgyrchoedd recriwtio'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol/Pwyllgor Ymchwilio. Ar draws ein holl geisiadau sydd wedi'u cwblhau, rydym wedi gweld niferoedd uwch o ymgeiswyr sy'n:

- fenyw (241 neu 59%)
- hŷn, hynny yw yn y grŵp oedran 55-59 neu 60-64 (78 a 61 neu 19% a 15%)
- Gwyn neu Wyn Prydeinig (306 neu 76%)
- Cristion (172 neu 42.5%) neu heb grefydd neu gred (59 neu 15%)
- heterorywiol (323 neu 80%)
- priod/mewn partneriaeth sifil (252 neu 62%)
- gweithwyr rhan-amser (206 neu 51%)

Mae gennym gyfran uwch o geisiadau cyflawn sy'n dangos nodweddion gwarchodedig lleiafrifol:

- anabledd (49 neu 12%)
- Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig (47 neu 12%)
- Du neu Ddu Prydeinig (21 neu 5%)
- hoyw/lesbiaidd (25 neu 6%)
- cyd-fyw (35 neu 9%)
- beichiogrwydd neu famolaeth (7 neu 2%)

## Adolygu'r canllawiau

Fe wnaethom gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r holl ganllawiau addasrwydd i ymarfer yn ystod y camau cychwynnol ac yn ystod cam gwrandawiadau'r broses addasrwydd i ymarfer, i sicrhau bod y canllawiau'n mynd i'r afael yn ddigonol â honiadau sy'n ymwneud ag ymddygiad hiliol a gwahaniaethol.

## Fframwaith newydd

Cafodd ein Fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd 2024-30 ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2024. Cafodd y Fframwaith ei ehangu i gynnwys 'Perthyn', sy'n golygu creu sefydliad sy'n ddiogel yn seicolegol lle mae ein pobl (staff ac aelodau anweithredol) yn teimlo'n hyderus i fod yn nhw eu hunain, heb risg o embaras na chael eu gwrthod, i'n helpu i fod y rheoleiddiwr gorau y gallwn ni fod. Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo y gallant fod yn greadigol ac yn arloesol ac y gallant herio arferion presennol yn adeiladol er budd cleifion, osteopathiaid a rhanddeiliaid.

Sefydlodd y Fframwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ein meincnod presennol, a nodi cyfres o gamau i'w cymryd dros y 18 mis nesaf.

## Nod strategol tri: Croesawu arloesedd

Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol nifer o brosiectau arloesol ar y gweill, er enghraifft yn ymwneud â'r ymateb rheoleiddiol i gynaliadwyedd y proffesiwn.

### Prosiectau'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig

Rydym wedi comisiynu ymchwil newydd i gefnogi materion recriwtio a chadw staff.

Mae'r prosiectau'n cynnwys:

- Galluogwyr a rhwystrau i fyfyrwyr sy'n astudio/cwblhau cwrs osteopathig
- Archwiliadau ansoddol o'r rhesymau dros adael Cofrestr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
- Gwerthuso ymddiswyddiadau o Gofrestr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (arolwg meintiol)

### Cydnabyddiaeth ryngwladol o gymwysterau

Rydym yn cydweithio ag eraill i gael cydnabyddiaeth o gymwysterau proffesiynol yn rhyngwladol i sicrhau bod safonau'r DU yn cael eu cynnal a bod cysylltiadau rhwng yr UE a'r DU yn cael eu datblygu.

### Cydweithio ar bontio i ymarfer

Rydym yn gwneud gwaith sy'n ymwneud â chysylltiadau â rhanddeiliaid a phontio i ymarfer. Rydym yn edrych ar sut gallwn ni fel rheoleiddiwr ddod â'r sector at ei gilydd i wella'r broses o bontio i ymarfer ar gyfer osteopathiaid. Ein bwriad yw trefnu gweithdy ar y cyd gyda chynrychiolwyr ar draws y sector i nodi pa gyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer cydweithredu. Bydd y ffocws ar rannu modelau arfer gorau presennol yn y sector a datblygu atebion y gellir gweithredu arnynt ar y cyd i gefnogi graddedigion newydd yn well.

### Sicrhau ansawdd addysg

Fe wnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i sicrhau ansawdd addysg yn fewnol o fis Gorffennaf 2025 ymlaen ar gyfer pob cwrs hyfforddi yn y DU ar gyfer myfyrwyr osteopatheg. Mae sicrhau ansawdd addysg yn ein helpu i sicrhau bod ein safonau ar gyfer addysg osteopathig yn cael eu bodloni, a bod 'Cymwysterau Cydnabyddedig' ond yn cael eu dyfarnu i raddedigion sy'n bodloni'r Safonau Ymarfer Osteopathig (OPS). Mae hyn yn sicrhau bod diogelwch cleifion a diogelu'r cyhoedd wrth galon yr holl weithgareddau addysg.

### Rhannu data

Mae pob darparwr addysg osteopathig yn rhoi data blynyddol i ni ar gofrestru, dilyniant, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a chyfadran, er enghraifft, proffil staff addysgu, cymarebau tiwtoriaid-myfyrwyr. Rydym yn rhannu'r data hwn â rhanddeiliaid allweddol fel y Sefydliad Osteopatheg a'r darparwyr eu hunain er mwyn i ni allu edrych ar y cyd ar faterion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw osteopathiaid, a gellir dod o hyd i atebion posibl i ddatrys unrhyw heriau.

## Gwefan newydd

Cytunodd y Cyngor i neilltuo adnoddau i uwchraddio gwefan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Bydd hyn yn ein galluogi i ddod â'n gwefannau niferus at ei gilydd mewn un wefan fwy modern a chydlynol a fydd yn ein helpu i gyfathrebu'n glir â'r proffesiwn. Mae'r gwaith cynllunio ar y gweill a bydd y broses dendro yn dechrau cyn bo hir.

## Canllawiau ar ddeallusrwydd artiffisial

Rydym wedi bod yn datblygu ein darn cyntaf o ganllawiau ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial mewn osteopatheg. Bydd hyn yn archwilio'r defnydd presennol ac yn y dyfodol o ddeallusrwydd artiffisial mewn ymarfer osteopathig, i lywio ein dull o sicrhau diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys sut mae'r OPS yn cefnogi osteopathiaid i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn briodol. Rydym wedi bod yn datblygu cynlluniau i ymgynghori ar y canllawiau hyn. Rydym yn bwriadu parhau i weithio gydag addysgwyr a rhanddeiliaid eraill i archwilio datganiad ar ddeallusrwydd artiffisial mewn addysg osteopathig ymhellach. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rheoleiddwyr eraill a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol i sicrhau dull cyson o ymdrin â deallusrwydd artiffisial wrth reoleiddio gweithwyr iechyd proffesiynol.

## Seilwaith TG

Gwnaethom barhau i weithio ar weithredu'r system CRM newydd (system cronfeydd data cofrestredig), gan fuddsoddi mewn diogelu ein systemau mewnol at y dyfodol i'w gwneud yn haws ac yn fwy effeithlon i osteopathiaid ddiweddaru eu manylion. Bydd y CRM newydd yn gallu integreiddio ag offer modern a fydd yn galluogi'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol i gyfathrebu'n well ag osteopathiaid a galluogi prosesau gwell a chyflymach yn fewnol.

# 7 Effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a pherfformiad gweithredol

Roeddem yn falch bod yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n adolygu gwaith yr holl reoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol bob blwyddyn, wedi adrodd bod y Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi cyrraedd ei holl safonau rheoleiddio da, am y bedwaredd flwyddyn ar ddeg yn olynol. Ni yw'r unig reoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol sydd â record o'r fath.

Yn ystod 2024-25, fe wnaethom barhau i gyflawni ein swyddogaethau craidd yn gyson, gan gynnwys rheoli ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a chynnal ein Cofrestr.

## Perfformiad Addasrwydd i Ymarfer

Yn 2024-25, cawsom 75 o bryderon. O'r rhain, gwnaed 31 yn ffurfiol. Yn ystod y flwyddyn, daeth Pwyllgor Ymchwilio'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol i benderfyniad terfynol mewn 39 o achosion. O'r rhain, cyfeiriwyd 27 at wrandawiad llawn y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol; mewn un achos rhoddwyd cyngor i'r cofrestrai gan y Pwyllgor Ymchwilio ac yn yr 11 achos arall, penderfynwyd nad oedd achos i'w ateb ac ni chymerwyd camau pellach.

Dros y flwyddyn, daeth y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol â 14 o achosion i ben; mewn 12 o'r achosion hynny, gosodwyd sancsiwn yn erbyn yr osteopath (gweler y tabl).

| Sancsiynau a osodwyd mewn achosion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol 2024-25 | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Rhybuddiwyd | 9 |
| Ataliwyd | 1 |
| Tynnwyd o'r gofrestr | 2 |
| **Cyfanswm** | **12** |

Fe wnaethom gomisiynu archwiliad allanol o'r holl achosion a phryderon a gaewyd gan sgrinwyr (mae sgriniwr yn aelod osteopath o'r Pwyllgor Ymchwilio sy'n adolygu pryderon i benderfynu a yw'r dystiolaeth yn gyfystyr â honiad) a'r Pwyllgor Ymchwilio sy'n ymwneud â throthwy'r meini prawf, dros y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 30 Awst 2024.

Digwyddodd hyn ddechrau 2025. Ni nodwyd unrhyw bryderon ynghylch diogelu cleifion ond roedd rhywfaint o wersi defnyddiol i'r sefydliad eu dysgu.

## Gwybodaeth am y Gofrestr


Ar 31 Mawrth 2025, roedd 5,596 o osteopathiaid wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

Cyngor Osteopathig Cyffredinol

RWYF WEDI COFRESTRU


**5,596**

osteopathiaid ar y Gofrestr



**4,832** o osteopathiaid yn Lloegr
**150** o osteopathiaid yn yr Alban
**164** o osteopathiaid yng Nghymru
**30** o osteopathiaid yng Ngogledd Iwerddon
**420** o osteopathiaid yng ngweddill y byd

| Rhyw | Nifer |
|---|---|
| Gwrywod | 2,660 (48%) |
| Benywod | 2,936 (52%) |
| **Cyfanswm** | **5,596 (100%)** |




Hyfforddwyd y 302 o osteopathiaid newydd neu rai sy'n dychwelyd i'r Gofrestr gyda'r darparwyr addysg canlynol:

| Man hyfforddi | Nifer yn ymuno â'r Gofrestr |
|---|---|
| Coleg Meddygaeth Osteopatheg Prydain | 29 |
| Coleg Osteopathiaid | 28 |
| Ysgol Osteopathig Ewrop | 48 |
| Prifysgol Gwyddorau Iechyd (UCO gynt) | 94 |
| Ysgol Osteopathi Llundain | 28 |
| Prifysgol Oxford Brookes | 1 |
| Coleg Technoleg Gogledd-ddwyrain Surrey | 12 |
| Prifysgol Abertawe | 40 |
| Prifysgol St Marks a St John (Marjon) | 15 |
| Tramor | 7 |
| **Cyfanswm** | **302** |

Cynhaliodd ein tîm o Aseswyr Cofrestru, pob un ohonynt yn osteopathiaid cymwysedig, gyfanswm o 34 asesiad cofrestru yn 2024-25, o'i gymharu â 46 asesiad cofrestru a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

| Math o asesiad | Nifer |
|---|---|
| Asesiad o gymhwyster y tu allan i'r DU | 4 |
| Tystiolaeth bellach o asesu ymarfer | 4 |
| Asesu perfformiad clinigol | 6 |
| Cyfweliad dychwelyd i ymarfer | 20 |
| **Cyfanswm** | **34** |

# 8 Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf

Eleni oedd blwyddyn gyntaf ein Strategaeth newydd, hyd at 2030. Mae'r Strategaeth yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, ein blaenoriaethau strategol a'n camau gweithredu allweddol, ac mae pob un ohonynt yn seiliedig ar ein gwerthoedd sefydliadol newydd.

Gan edrych i'r dyfodol, yn 2025-26, byddwn yn cyflawni yn erbyn ein Strategaeth drwy'r gweithgareddau canlynol:

**Cryfhau ymddiriedaeth:** Byddwn yn gweithio i wella ein perthynas â'r rhai rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn i ni allu helpu i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd.

**Beth ydym yn bwriadu ei wneud?**

- Dechrau gwaith i gryfhau'r camau o ddiogelu'r teitl 'osteopath' drwy ymgynghoriad i gasglu barn.
- Codi ymwybyddiaeth o'n rôl a gwerth rheoleiddio.
- Cynyddu ymgysylltiad â sefydliadau partner a rhanddeiliaid eraill a hefyd codi ymwybyddiaeth o'r ymgysylltu hwn.
- Gwneud penderfyniadau ariannol ac asedau hirdymor sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ein cyfrifoldebau statudol a nodau strategol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.
- Byddwn yn parhau i weithredu gweithgareddau i gynyddu ymddiriedaeth a lleihau ofn yn unol â chanfyddiadau o'r ymchwil canfyddiadau annibynnol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024.

**Hyrwyddo cynhwysiant:** Mae'n bwysig i ni fod pobl sy'n rhyngweithio â ni, neu sy'n gweithio i ni, yn gallu bod yn nhw eu hunain a'n bod yn deall ac yn chwalu unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny.

**Beth ydym ni'n bwriadu ei wneud?**

- Gweithredu Rhaglen Partneriaeth Cleifion Strategol ar lefel y Cyngor, drwy benodi dau bartner sy'n gleifion a fydd yn ymuno â'r Cyngor fel rhan o gynllun peilot. Y nod yw cynnwys safbwynt penodol y claf ac i'r partneriaid sy'n gleifion weithredu fel 'ffrindiau beirniadol' i'r Cyngor i wella ein proses o wneud penderfyniadau.
- Casglu, dadansoddi a chyhoeddi data dienw am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac unrhyw newidiadau rydym ni'n eu gwneud, neu'r mesurau lliniaru rydym ni'n eu rhoi ar waith, lle rydym wedi nodi bod effaith amhriodol ar y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Gweithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad annibynnol rydym wedi'i gomisiynu i'n gweithgarwch recriwtio anweithredol.
- Cefnogi'r gwaith o recriwtio a chadw myfyrwyr i gynnal a chynyddu proffesiwn cynaliadwy ac amrywiol.
- Gweithredu a gwerthuso'r canllawiau iechyd ac anabledd a gyhoeddwyd gennym ar gyfer myfyrwyr a darparwyr addysg, i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio osteopatheg sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd.

**Croesawu arloesedd:** Byddwn yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd i wella'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei gyflawni, fel ein bod ni'n parhau i wella fel sefydliad.

**Beth ydym yn bwriadu ei wneud?**

- Trwy broses dendro, byddwn yn dod o hyd i gyflenwr ac yn datblygu gwefan gyhoeddus newydd sy'n rhoi cyfle i gael cynnwys mwy modern, arloesol a diddorol.
- Adolygu effaith newidiadau o ran darparu gofal iechyd gan gynnwys deallusrwydd artiffisial ar addysg osteopathig a gofal osteopathig a defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn gofal iechyd i gleifion. Byddwn hefyd yn ystyried effaith deallusrwydd artiffisial ar safonau a rheoliadau osteopathig.
- Ceisio gwelliant parhaus sy'n deillio o adolygiadau annibynnol o effeithiolrwydd y bwrdd a gweithgareddau archwilio mewnol.
- Mireinio a gweithredu ein model Damcaniaeth Newid i fesur cynnydd a gweithrediad Strategaeth y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

# 9 Adroddiad a chyfrifon blynyddol 2024-25

## Cyflwyniad

Roedd blwyddyn ariannol 2024-25 yn dangos lefelau chwyddiant yn gostwng ymhellach o'u lefelau uchel ar ôl y pandemig; fodd bynnag, maent yn dal ychydig yn uwch na tharged Banc Lloegr o 2%. Mae'r argyfwng costau byw yn parhau wrth i gostau ynni a phrisiau bwyd adlewyrchu digwyddiadau'r byd. Mae'r DU o dan arweinyddiaeth newydd ers yr adroddiad blynyddol blaenorol, gyda'r blaid Lafur yn cael ei hethol ym mis Gorffennaf 2024, yn dilyn buddugoliaeth ysgubol yn yr Etholiad Cyffredinol.

Y canlyniad ariannol ar gyfer y flwyddyn oedd diffyg o £281,000, a oedd yn waeth na'r gyllideb o tua £285,000. Fe wnaethom wario tua £161,000 o gronfeydd dynodedig. Roedd ffioedd cofrestru tua £160,000 yn fwy na'r gyllideb, ac roeddent yn cael eu cefnogi gan fuddsoddiad o tua £37,000, ynghyd â thanwariant o tua £5,000 ar Gyfathrebu, ymchwil a datblygu. Fodd bynnag, cafodd hyn ei wrthbwyso gan rywfaint o orwariant mewn safonau Addysg a Phroffesiynol o tua £86,000, Llywodraethu (£73,000), Addasrwydd i Ymarfer (£66,000), TG a seilwaith (£46,000) ac Adnoddau Canolog ac Ariannu (£18,000).

Yn y Cyngor, rydym yn edrych yn rheolaidd ar ein dull rheoleiddio i sicrhau ein bod yn parhau i ychwanegu gwerth. Mae'r cwestiynau rydym ni'n eu gofyn yn cynnwys:

- Sut gallwn ni wneud ein gwaith yn fwy syml a chost-effeithiol?
- Sut gallwn ni sicrhau ein bod yn gwrando, yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu'n effeithiol ar adeg pan mae llai o ryngweithio wyneb yn wyneb?
- Sut ydym yn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ar ein cyfrifoldebau statudol craidd mewn dull pwyllog a phriodol?

Bedair blynedd yn ôl, fe wnaethom gyflwyno ein Datganiad Gwerth, lle rydym yn disgrifio sut mae ein gwaith yn ychwanegu gwerth. Rydym wedi nodi yn yr adroddiad hwn lle mae ein gwaith yn 2024-25 yn cyd-fynd â'r dull gweithredu hwn.

## Datganiad Gwerth

Mae ein dull rheoleiddio yn cael ei fynegi drwy **Ein Strategaeth: gan fynd â ni o 2024 i 2030** a'n cynlluniau busnes sylfaenol rydym yn eu datblygu bob blwyddyn.

Mae'r gweithgareddau a nodir yn y cynlluniau busnes blynyddol wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer:

- **Cryfhau ymddiriedaeth** - byddwn yn gweithio i wella ein perthynas â'r rheini rydym ni'n gweithio gyda nhw er mwyn i ni allu helpu i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd gyda'n gilydd.
- **Hyrwyddo cynhwysiant** - mae'n bwysig i ni y bydd pobl sy'n rhyngweithio â ni, neu sy'n gweithio i ni, yn gallu bod yn nhw eu hunain a'n bod yn deall ac yn chwalu unrhyw rwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny.
- **Croesawu arloesedd** - byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd a manteisio arnynt, i wella beth rydym ni'n ei wneud a sut rydym ni'n gwneud hynny, er mwyn i ni barhau i wella fel sefydliad.

## Yr egwyddorion sy'n sail i'r Datganiad Gwerth

Mae'r Datganiad Gwerth yn seiliedig ar set o werthoedd craidd sy'n cefnogi sut rydym yn gweithio ac yn cyfrannu at ddatblygu ein cynlluniau busnes a'n cyllidebau.

Dyma'r egwyddorion:

- **Cyflawni ein swyddogaethau statudol craidd:** sicrhau bod lefelau ariannu priodol ar gael i allu cyflawni ein swyddogaethau statudol craidd.

- **Clywed llais y claf:** byddwn yn dyrannu adnoddau fel bod llais y claf yn hysbysu ein gwaith nawr ac yn y dyfodol.
- **Edrych ar ddechrau'r broses yn fanylach:** byddwn yn sicrhau ein bod yn canfod ac yn ariannu gweithgareddau sy'n cefnogi rheoleiddio ar ddechrau'r broses, ac sy'n berthnasol ac yn briodol i'n cyd-destun.
- **Gwelliant parhaus:** byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i sbarduno gwelliant parhaus fel y gallwn fod yn well sefydliad yfory nag yr ydym heddiw.
- **Digidol yn gyntaf:** byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu dull digidol yn gyntaf o weithredu er mwyn symleiddio ein gweithgareddau.
- **Effeithlonrwydd cost ac effeithiolrwydd cost:** rydym yn sicrhau ein bod yn ofalus lle mae ein hadnoddau'n cael eu defnyddio i fod yn gost-effeithlon a chost-effeithiol.

Rydym o'r farn bod tair elfen i'n datganiad gwerth:

1. **Sicrhau diogelwch y cyhoedd**
2. **Datblygu'r proffesiwn**
3. **Darparu camau llywodraethu cadarn**

**Elfen un: Sicrhau diogelwch y cyhoedd**

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar ein gwaith i sicrhau diogelwch y cleifion a'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

Mae ein gweithgareddau i sicrhau diogelwch y cyhoedd yn cynnwys:

- sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant
- datblygu, gosod a chynnal Safonau Ymarfer Osteopathig
- cynnal uniondeb Cofrestr statudol yr osteopathiaid
- rheoli pryderon drwy ein prosesau addasrwydd i ymarfer

Mae diogelu'r cyhoedd yn ganolog i'r gwaith rydym yn ei wneud, ac adlewyrchir hyn gan y gweithgareddau o dan yr elfen hon sy'n cwmpasu ystod lawn ein busnes.

Ym mlwyddyn ariannol 2024-25, fe wnaethom wario £1.68m ar ein gweithgareddau i sicrhau diogelwch y cyhoedd (2024: £1.37m).

Roedd hyn yn hafal i 51% o gyfanswm ein cyllideb (2024: 45%) ac mae'n golygu, am bob ffi gofrestru o £570 a gawn, ein bod yn gwario £290 o hynny ar sicrhau diogelwch y cyhoedd (2024: £256).

**Elfen dau: Datblygu'r proffesiwn**

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar ein gwaith i sicrhau ein bod yn datblygu'r proffesiwn ac yn darparu cymorth priodol iddo allu cynnal gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Mae ein gweithgareddau i ddatblygu'r proffesiwn yn cynnwys:

- cefnogi'r proffesiwn i ymgymryd â Gweithgareddau Datblygiad Proffesiynol Parhaus i gynnal a gwella sgiliau a gwybodaeth
- cyfrannu cyllid i'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig
- cyllido tanysgrifiad ledled y proffesiwn ar gyfer yr International Journal of Osteopathic Medicine (IJOM) a chyfnodolion ymchwil eraill
- ystod o weithgareddau cyfathrebu gyda phwyslais newydd ar wrando ac ymgysylltu

Yn y flwyddyn ariannol 2024-25, fe wnaethom wario £0.80m ar ein gweithgareddau i sicrhau ein bod yn datblygu ac yn cefnogi'r proffesiwn (2024: £0.71m).

Roedd hyn yn hafal i 24% o gyfanswm ein cyllideb (2024: 24%) ac yn golygu, am bob £570 o ffi gofrestru a gawn, ein bod wedi gwario £137 o hynny ar ddatblygu'r proffesiwn (2024: £137).

**Elfen tri: Darparu camau llywodraethu cadarn**

Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar bwysigrwydd darparu camau llywodraethu cadarn. Dylai camau llywodraethu da sicrhau bod sefydliad yn aros yn sefydlog ac yn gynhyrchiol, a bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

Mae ein gweithgareddau i ddarparu camau llywodraethu cadarn yn cynnwys:

- penodi, hyfforddi a chynnal strwythur llywodraethu sy'n cynnwys y Cyngor, y Pwyllgor Polisi ac Addysg, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Pobl.
- cynnal cyfarfodydd y Cyngor yn gyhoeddus a sicrhau bod papurau'r cyfarfod ar gael ymlaen llaw
- buddsoddi yn ein seilwaith TG a ffyrdd digidol newydd o weithio
- gwneud ein gwaith yn destun archwiliadau ac adolygiad annibynnol

Yn y flwyddyn ariannol 2024-25, fe wnaethom wario £0.84m ar ein gweithgareddau i sicrhau ein bod yn darparu camau llywodraethu cadarn (2024: £0.93m). Mae'r cynnydd hwn a ragwelir yn adlewyrchu'r ffaith ein bod wedi bod yn rheoli, yn fewnol, nifer sylweddol o benodiadau anweithredol (16 swydd) wrth i gyfnodau aelodau'r Cyngor a'r pwyllgorau ddod i ben yn naturiol.

Roedd hyn yn hafal i 25% o gyfanswm ein cyllideb (2024: 31%) ac mae'n golygu, am bob ffi gofrestru o £570 a gawn, ein bod yn gwario £143 o hynny ar ddarparu camau llywodraethu cadarn (2024: £177).


**Tabl yn dangos y Datganiad Gwerth, gwariant yn ystod y flwyddyn, % o gyfanswm y gwariant a chyfran y ffi gofrestru o £570**


| Elfennau'r Datganiad Gwerth | Gwariant yn ystod y flwyddyn[1] £ | Canran o gyfanswm y gwariant % | Cyfran o'r ffi gofrestru £570 a ddefnyddiwyd £ |
|---|---|---|---|
| Sicrhau diogelwch y cyhoedd | 1.68m (2025)<br>1.37m (2024) | 51% (2025)<br>45% (2024) | 290 (2025)<br>256 (2024) |
| Datblygu'r proffesiwn | 0.80m (2025)<br>0.71m (2024) | 24% (2025)<br>24% (2024) | 137 (2025)<br>137 (2024) |
| Darparu llywodraethiant cadarn[2] | 0.84m (2025)<br>0.93m (2024) | 25% (2025)<br>31% (2024) | 143 (2025)<br>177 (2024) |


1 Ac eithrio colledion buddsoddi a/neu daliadau


2 Noder nad yw'r ffigurau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad gwerth ar gyfer Llywodraethiant yn berthnasol i'r nodiadau ar Llywodraethiant. yn y nodiadau i'r cyfrifon

**Beth mae'r ffi gofrestru yn ei hariannu yn ôl datganiad gwerth?**
Mae'r brif ffi gofrestru o £570 wedi'i dadansoddi i ddangos swm y gwariant ar draws cynnig gwerth y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn 2024-2025.




25%
Darparu
llywodraethiant cadarn
2024-2025
51%
24%
Sicrhau diogelwch y cyhoedd 51%
Datblygu'r proffesiwn 24%
Darparu llywodraethiant cadarn 25%


31%
Canran o
gyfanswm y gwariant
2023-2024
45%
24%
Sicrhau diogelwch y cyhoedd 45%
Datblygu’r proffesiwn 24%
Darparu llywodraethiant cadarn 31%

**Incwm a gwariant**

Cyflwynir y cyfrifon, a nodir yn fanylach dros y tudalennau canlynol, yn unol â'r SORP Elusennau (Safon Adrodd Ariannol 102).

Gorffennodd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol y flwyddyn ariannol gyda diffyg o £281,356; lleihawyd y diffyg gan elw buddsoddi o tua £37,000.

Ar ddiwedd y flwyddyn, cyfanswm yr incwm oedd £2,993,458. Roedd incwm y ffi gofrestru yn cyfrif am 98% o gyfanswm yr incwm. Mae ffioedd cofrestru unwaith eto wedi cael eu cynnal ar eu lefel bresennol – yr unfed flwyddyn ar ddeg yn olynol, sy'n cynrychioli gostyngiad mewn termau real. Daeth yr incwm sy'n weddill o feysydd fel enillion portffolio buddsoddi, llog banc, ac asesiadau cofrestru.

Nid oes gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol unrhyw weithgaredd codi arian sy'n gofyn am ddatgeliad o dan Adran 162A o Ddeddf Elusennau 2011.

Roedd gwariant y flwyddyn yn £3,311,444 ar ôl gwariant dynodedig; dangosir y dadansoddiad o hyn ar y ddwy dudalen nesaf.

**Costau datblygu a rheoleiddio**

Mae costau gweithgareddau rheoleiddio'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn perthyn i'r pedwar prif faes canlynol (nodwch fod costau staffio wedi'u cynnwys ym mhob un o'r rhain):

- **Safonau addysg a phroffesiynol**

  Mae sicrhau ansawdd darparwyr addysgol osteopathig yn parhau i fod yn elfen sylfaenol o'r gwaith a wneir yn y maes hwn, ochr yn ochr â datblygu a gweithredu'r cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

  Yn 2024-25, roedd costau uniongyrchol a gafwyd yn y maes hwn yn £652,447 yn y flwyddyn, o'i gymharu â £525,382 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 24%. Roedd costau uniongyrchol mewn perthynas â sicrhau ansawdd tua £232,000, a gwariwyd tua £11,000 gennym ar weithgareddau ymchwil.

- **Cofrestru**

  Yn 2024-25, roedd costau uniongyrchol a gafwyd yn y maes hwn yn £177,533 yn y flwyddyn, o'i gymharu â £175,986 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 1%. Roedd cyfanswm y costau nad ydynt yn gostau staffio tua £12,000, ac yn cynnwys costau asesu cofrestru a gwariant cysylltiedig ar gyfer hyfforddi ac asesu aseswyr cofrestru.

- **Addasrwydd i Ymarfer a chyfreithiol**

  Mae cost cynnal ymchwiliadau a gwrandawiadau yn parhau i fod y gost unigol fwyaf nad yw'n ymwneud â staff, o wariant y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

  Yn 2024-25, roedd costau uniongyrchol a gafwyd yn y maes hwn yn £859,657 yn y flwyddyn, o'i gymharu â £618,335 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 39%. Roedd hyn yn cynnwys cost y Pwyllgor Ymchwilio, a oedd tua £173,000, gyda'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn gwario tua £238,000.

- **Cyfathrebu, ymchwil a datblygu**

  Yn 2024-25, roedd costau uniongyrchol a gafwyd yn y maes hwn yn £490,415 yn y flwyddyn, o'i gymharu â £434,964 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 13%. Roedd costau'n ymwneud â datblygu a chynnal a chadw gwefannau, a chyhoeddiadau, tua £37,000. Yn ogystal, mae costau cyffredinol yr adran yn cynnwys darparu mynediad am ddim i gyfnodolion ymchwil ar gyfer osteopathiaid, a dyraniad i gostau seilwaith ar gyfer y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig a oedd yn gyfanswm o tua £65,000.

**Costau gorbenion a gweinyddu**

Meysydd cost eraill y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw'r rhai sy'n ymwneud â gweithredu seilwaith y sefydliad, gan gynnwys costau adeiladu a TG, a gweinyddu Cyngor a phwyllgorau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, sy'n swyddogaethau hanfodol ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau statudol.

- **Llywodraethu**

  Mae costau llywodraethu yn ymwneud â lwfansau aelodau'r Cyngor, treuliau pwyllgorau, arfarniadau, a recriwtio aelodau newydd.

  Yn 2024-25, roedd costau llywodraethu yn £539,819, o'i gymharu â £497,715 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 8%. Roedd hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yng nghost cyfarfodydd y cyngor a chydnabyddiaethau'r cyngor. O fewn costau llywodraethu oedd yr ardoll ar bob rheoleiddiwr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer costau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol; talodd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ardoll o £14,294.

- **Seilwaith TG**

  Eleni gwelwyd ffocws ar sicrhau bod seilwaith TG y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn ddiogel ac yn addas at y diben, gan gynnwys rhywfaint o wariant ar seiberddiogelwch a chynnal profion treiddiad ar wahanol wefannau'r Cyngor. Mae gwariant ar TG yn adlewyrchu cost Cofrestr y Cyngor, y system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid (CRM) a gwasanaethau swyddfa eraill.

  Yn 2024-25, roedd costau uniongyrchol TG yn £132,879, o'i gymharu â £216,849 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 39%. Mae hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad mewn costau seilwaith.


- **Adnoddau canolog ac ariannu**

  Mae gwariant yn y maes hwn yn adlewyrchu costau eiddo, gweinyddiaeth swyddfa gyffredinol a theithio. Mae hefyd yn cynnwys ffioedd archwilio, llog banc, taliadau buddsoddi, a dibrisiant.

  Yn 2024-25, roedd costau gweinyddol yn £255,340, o'i gymharu â £245,725 yn y flwyddyn flaenorol, cynnydd o 4%. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn ffioedd archwilio, a chynnydd arall sy'n gysylltiedig â chwyddiant.

**Beth mae'r ffi gofrestru yn ei hariannu?**

Mae'r brif ffi gofrestru o £570 wedi'i dadansoddi isod i ddangos swm y gwariant ar bob swyddogaeth y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn 2024-25:




**Adnoddau canolog ac ariannu (£68.83) 12%**
Yn cynnwys eiddo, gweinyddu swyddfa a ffioedd archwilio.

**Cyfathrebu ac ymchwil (£84.42) 15%**
Yn cynnwys cyfathrebiadau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol a mynediad am ddim i osteopathiaid at gyfnodolion ymchwil drwy the o zone

**Addysg a safonau proffesiynol (£112.31) 20%**
Sicrhau ansawdd darparwyr addysg osteopathig; cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus, ac adolygu a diweddaru'r OPS.

**Addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys cyfreithiol (£147.97) 26%**
Cynnal ymchwiliadau a gwrandawiadau; Costau cyfreithiol a phwyllgorau.

**Llywodraethiant (£92.92) 16%**
Rhedeg y Cyngor a'r Pwyllgorau ac mae hefyd yn cynnwys ardoll i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol o £14,118.

**Seilwaith ar gyfer y Gofrestr (£32.99) 6%**
gyfer y Gofrestr, system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, a seiberddiogelwch

**Cofrestru (£30.56) 5%**
Costau cynnal y Gofrestr a chostau asesu cofrestriadau.

## Cronfeydd wrth gefn a buddsoddiadau

**Polisi cronfeydd wrth gefn**

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn cadw cronfeydd wrth gefn fel rhan o ymarfer busnes da er mwyn sicrhau bod arian ar gael os oes digwyddiadau annisgwyl yn codi, megis cynnydd mewn gwariant neu ostyngiad mewn incwm. Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'r cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn. Mae sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2024-25 wedi'i nodi isod.

Mae'r Fantolen yn dangos cyfanswm o £2,601,074 o gronfeydd wrth gefn. Mae holl gronfeydd wrth gefn y Cyngor yn anghyfyngedig.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried y meysydd sy'n cynnwys y risg ariannol fwyaf i'r Cyngor yn eu barn nhw, sef:

- cynnydd yn nifer y pryderon
- adolygiadau barnwrol neu apeliadau cyfreithiol
- colledion na ellir eu hyswirio ee dirwyon diogelu data
- cynnydd na chafodd ei ragweld mewn gweithgarwch sicrhau ansawdd

Ar ôl ystyried y risgiau hyn a'r effaith ariannol bosibl pe baent yn cael eu gwireddu, mae'r ymddiriedolwyr wedi dod i'r casgliad y byddai'n ddoeth cadw cronfeydd wrth gefn o fewn amrediad targed o £350,000-£700,000.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024-25, mae'r ymddiriedolwyr yn cadw cronfeydd wrth gefn gwerth £348,342, sydd wedi'u cyfrifo fel a ganlyn:

| | £ |
|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn a gedwir | 2,601,074 |
| Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig | – |
| Cronfeydd wrth gefn dynodedig | (535,689) |
| Asedau sefydlog gweithredol | (1,717,043) |
| Cronfeydd wrth gefn sy'n weddill | 348,342 |

Mae asedau sefydlog gweithredol yn cynnwys cyfanswm asedau diriaethol ac anniriaethol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

Mae'r cronfeydd wrth gefn ychydig yn is na'r amrediad targed ar hyn o bryd (llai nag un y cant). Bydd yr ymddiriedolwyr yn ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a sut y bydd modd eu defnyddio ym mlwyddyn ariannol 2025-26. Mae'r ymddiriedolwyr wedi dod i'r casgliad y dylid cyflwyno'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

**Strategaeth fuddsoddi**

Mae buddsoddiadau'n cael eu prisio ar sail pris y farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Mae enillion a cholledion a wireddwyd a nas gwireddwyd sy'n deillio o ailbrisio buddsoddiadau yn cael eu credydu neu eu codi i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae buddsoddiadau'n cynnwys adneuon arian parod lle nad oes angen arian ar gyfer cyfalaf gweithio tymor byr.

Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol fuddsoddiad o £1,317,560 mewn portffolio amrywiol, risg ganolig. Rheolir y gronfa gan Brewin Dolphin ac fe'i dosbarthir ar y Fantolen fel ased anghyfredol.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'r Cyngor (y mae ei aelodau'n Ymddiriedolwyr yr elusen hefyd) yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.  Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Osteopathiaid 1993 i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol.  O dan y ddeddf hon, mae'r Cyngor wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y DU (Safonau Cyfrifyddu a deddfau perthnasol y DU).

Ni fydd y Cyngor yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai ei fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, a'i elw neu ei golledion am y cyfnod hwn. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud y canlynol:

- dewis polisi cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson.
- glynu wrth ddulliau ac egwyddorion yn y SORP Elusennau perthnasol.
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddarbodus.
- datgan a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu cymwys y DU, yn amodol ar unrhyw amrywiadau perthnasol sy'n cael eu datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol.
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau ar y sail honno.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y Cyngor, a datgelu sefyllfa ariannol y Cyngor ar unrhyw adeg gyda chywirdeb rhesymol. Dylent hefyd alluogi'r Cyngor i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Osteopathiaid 1993 a Deddf Elusennau 2011.

Hefyd, mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol ac mae'n cymryd camau rhesymol i asesu a rheoli risg, ymgymryd â gweithgareddau archwilio anariannol o waith y Cyngor Osteopathig Cyffredinol, a sicrhau bod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra yn cael eu hatal a'u canfod. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn aelod o'r Cyngor ac mae'n gallu adrodd ar faterion perthnasol ym mhob cyfarfod o'r Cyngor.

Cymeradwywyd gan y Cyngor ar 15 Gorffennaf 2025, a'i lofnodi ar eu rhan gan:



**Jo Clift**
Cadeirydd

15 Gorffennaf 2025

## Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, sy'n cynnwys y datganiad o weithgareddau ariannol, y fantolen a'r datganiad llif arian, a nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.  Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig). Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2025 ac o symudiad net yr elusen mewn cronfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

### Sail y farn

Rydym wedi cael ein penodi'n archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi cael eu disgrifio ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

### Casgliadau ynghylch busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amgylchiadau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod sydd o leiaf ddeuddeng mis o'r dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r Cyflwyniad gan Gadeirydd y Cyngor. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad pendant ar yr wybodaeth honno, ac eithrio i'r graddau y gwnaed hynny'n benodol fel arall yn ein hadroddiad.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng y wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom fel rhan o'r archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall fod camddatganiad o bwys yn y wybodaeth arall. Os ydym yn nodi anghysonderau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau o bwys ymddangosiadol, mae'n rhaid i ni benderfynu a oes camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad o bwys mewn perthynas â'r wybodaeth arall. Os byddwn, ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys yn y wybodaeth arall hon, bydd yn ofynnol i ni adrodd ar y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

**Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennym ddim i adrodd arno mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt i chi yn ôl Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 os byddwn o'r farn bod y canlynol yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan yr elusen; neu
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nid yw datganiadau ariannol yr elusen yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r adroddiadau cyfrifyddu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

**Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr am y datganiadau ariannol**

Fel yr esboniwyd yn fwy manwl yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr ar dudalen 35, yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai fod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad oes yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi drwy dwyll neu gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys pe bai'n rhesymol disgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a fyddai'n cael eu gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, er mwyn dod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Mae'r graddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll yn cael eu nodi isod:

Ar sail ein dealltwriaeth o'r elusen a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo, fe wnaethom nodi bod y prif risgiau o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn ymwneud â gofynion rheoleiddio Deddf Osteopathiaid 1993], ac roeddem wedi ystyried i ba raddau y gallai peidio â chydymffurfio gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Gwnaethom hefyd ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol, megis y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu (GDPR), deddfwriaeth ar drethu, Deddf Elusennau 2011 a deddfwriaeth cyflogaeth.

Fe wnaethom werthuso cymhellion a chyfleoedd y rheolwyr ar gyfer camddefnyddio'r datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheolaethau) a phenderfynu bod y prif risgiau'n gysylltiedig â phostio cofnodion amhriodol o ran refeniw a thuedd rheoli mewn amcangyfrifon cyfrifyddu. Ymhlith y gweithdrefnau archwilio a ddilynwyd gan y tîm ymgysylltu roedd:

Trafodaethau gyda rheolwyr gan gynnwys ystyried achosion hysbys neu a amheuir o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a thwyll;

- Gwerthuso rheolaethau'r rheolwyr a luniwyd i atal a chanfod afreoleidd-dra;
- Nodi a phrofi cofnodion cyfrifyddu, yn enwedig y cofnodion hynny a oedd yn arddangos y nodweddion a nodwyd gennym fel dangosyddion posibl o afreoleidd-dra; a
- Herio rhagdybiaethau a dyfarniadau a wnaed gan y rheolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu critigol.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, ceir risg na fyddwn yn canfod pob afreoleidd-dra, gan gynnwys rhai sy'n arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau. Mae'r risg hon yn cynyddu po fwyaf y tynnir cydymffurfiaeth â chyfraith neu reoliad o'r digwyddiadau a'r trafodiadau a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, gan y byddwn yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o achosion o ddiffyg cydymffurfio. Bydd y risg hefyd yn fwy o ran afreoleidd-dra yn sgil twyll yn hytrach na gwall, gan fod twyll yn cynnwys celu, ffugio, cydgynllwynio, hepgor neu gamliwio bwriadol.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol yn: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

**Defnyddio ein hadroddiad**

Gwneir yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol ag adran 144 Deddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wneir o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei wneud er mwyn i ni allu datgan wrth ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at yr un diben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ar wahân i ymddiriedolwyr yr elusen fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a ffurfiwyd gennym.



**HaysMac LLP**
Archwilwyr Statudol Dyddiad:
23 Gorffennaf 2025

10 Queen Street Place
Llundain
EC4R 1AG

Mae HaysMac LLP yn gymwys i weithredu fel archwilydd o ran adran 1212 Deddf Cwmnïau 2006

## Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2025

| | Nodiadau | 2025<br>£ | 2024<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Incwm gan y** | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 2 | **2,971,497** | 2,902,861 |
| Buddsoddiadau | 3 | **21,961** | 20,834 |
| **Cyfanswm** | | **2,993,458** | 2,923,695 |
| | | | |
| **Gwariant ar** | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 4 | **3,311,444** | 2,994,590 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **3,311,444** | 2,994,590 |
| | | | |
| Gwariant net cyn enillion ar fuddsoddiadau | | **(317,986)** | (70,895) |
| | | | |
| Enillion net ar fuddsoddiadau | | **36,630** | 94,561 |
| **(Gwariant) / incwm net** | | **(281,356)** | 23,666 |
| | | | |
| **Cysoni cronfeydd** | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | **2,882,430** | 2,858,764 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | 13 | **2,601,074** | 2,882,430 |

Mae'r (diffyg)/gwarged am y flwyddyn yn deillio o weithrediadau parhaus y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

Mae'r holl incwm a gwariant yn anghyfyngedig.

## Mantolen

| **Fel yr oedd ar 31 Mawrth 2025** | **Nodiadau** | **2025**<br>**£** | Wedi'i Ailddatgan<br>2024<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Asedau anniriaethol | 8 | **213,962** | – |
| Asedau diriaethol | 8 | **1,503,081** | 1,547,271 |
| Buddsoddi (portffolio) | 9 | **1,317,560** | 1,269,682 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **3,034,603** | 2,816,953 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 10 | **193,311** | 129,381 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | **277,969** | 726,897 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **471,280** | 856,278 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn | 11 | **(904,809)** | (790,801) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(904,809)** | (790,801) |
| **(Rhwymedigaethau) cyfredol net/asedau** | | **(433,529)** | 65,447 |
| **Asedau net** | | **2,601,074** | 2,882,430 |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | | |
| - Cronfeydd dynodedig wrth gefn | | **535,689** | 496,213 |
| - Cronfeydd cyffredinol wrth gefn | | **2,065,385** | 2,386,217 |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | | **2,601,074** | 2,882,430 |

Mae'r cyfnod blaenorol wedi cael ei ailddatgan i adlewyrchu newid yn y fethodoleg ar gyfer cyfrifo dyledwyr masnach ac incwm gohiriedig. Adlewyrchir y newid hwn ar y Fantolen ac yn nodiadau 10-12.

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd i'w gyhoeddi gan aelodau'r Cyngor ar 15 Gorffennaf 2025 a'i lofnodi ar eu rhan gan:



**Jo Clift**
Chair

## Datganiad o lifau arian ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2025

| | Nodiadau | 2025<br>£ | 2024<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Cysoni (gwariant)/incwm net â llif arian parod net o weithgareddau gweithredol:** | | | |
| (Gwariant)/incwm net ar gyfer y cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad gweithgareddau ariannol) | | **(281,356)** | 23,666 |
| Dibrisiant | | **56,354** | 60,310 |
| Enillion ar fuddsoddiad | | **(47,878)** | (101,690) |
| Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau | | **10,712** | 13,705 |
| Cynnydd mewn dyledwyr | 10 | **(59,186)** | (13,663) |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn credydwyr | 11 | **109,264** | (16,129) |
| **Arian parod net a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredu** | | **(212,090)** | (33,801) |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau | | **(10,712)** | (13,705) |
| Prynu asedau sefydlog anniriaethol | 8 | **(213,962)** | - |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | 8 | **(12,164)** | (17,001) |
| **Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi** | | **(236,838)** | (30,706) |
| **Newid mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y cyfnod adrodd** | | **(448,928)** | (64,507) |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | | **726,897** | 791,404 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | **277,969** | 726,897 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | **277,969** | 726,897 |

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol - ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2025

## 1. Prif bolisïau cyfrifyddu

### Sail y cyfrifyddu

Sefydlwyd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993 ac fe'i lleolir yn y Deyrnas Unedig, a chyfeiriad y brif swyddfa yw Osteopathy House, 176 Tower Bridge Road, Llundain SE1 3LU.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r 'Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn SORP Elusennau y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail cost hanesyddol fel y'i haddaswyd drwy ailbrisio buddsoddiadau.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn sterling (£). Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn bodloni'r diffiniad o 'endid budd cyhoeddus' o dan FRS 102.

### Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu critigol

Er mwyn gallu paratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi adolygu ei bolisïau cyfrifyddu a'r symiau a gofnodir yn y cyfrifon blynyddol i sicrhau bod unrhyw amcangyfrifon a dyfarniadau sydd â'r risg fwyaf o achosi addasiad perthnasol i'r cyfrifon yn cael eu datgelu. Ym marn y Cyngor, nid oes unrhyw amcangyfrifon na dyfarniadau arwyddocaol yn gysylltiedig â pharatoi'r datganiadau ariannol ac eithrio'r rhwymedigaeth ddigwyddiadol mewn perthynas â'r achos tribiwnlys cyflogaeth â'r potensial am daliadau ychwanegol i banelwyr, yn ymwneud â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

### Asedau anniriaethol

Yn unol â'r SORP Elusennau (FRS 102), mae cost gweinyddwyr a meddalwedd cwmwl (sy'n costio mwy na £750) yn cael eu trin fel asedau anniriaethol a byddant yn destun amorteiddio. Darperir amorteiddio ar asedau anniriaethol, ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Meddalwedd gyfrifiadurol | 5 mlynedd |

### Asedau sefydlog diriaethol

Mae'r holl asedau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol o fwy na blwyddyn ac sy'n costio mwy na £1,000 (neu fwy na £750 ar gyfer offer cyfrifiadurol), yn cael eu cyfalafu. Darperir dibrisiant ar asedau sefydlog, ar sail llinell syth, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladu rhydd-ddaliadol | 50 mlynedd |
| Dodrefn swyddfa | 5 mlynedd |
| Cyfarpar swyddfa | 3 blynedd |
| Caledwedd cyfrifiadurol | 3 blynedd |

Nid yw tir yn cael ei ddibrisio.

### Incwm

Cydnabyddir incwm o ffioedd cofrestru a ffioedd eraill dros y cyfnod y darperir gwasanaeth, felly mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn ennill hawl i'r incwm.  Ar gyfer incwm ffioedd cofrestru, mae hyn dros gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y cofnodwyd yr unigolyn ar y Gofrestr am y tro cyntaf. Cyfrifir incwm buddsoddi gan gynnwys incwm llog banc fel y'i henillwyd.

**Buddsoddiadau**

Mae buddsoddiadau'n cael eu prisio ar sail pris y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae enillion a cholledion a wireddwyd a nas gwireddwyd sy'n deillio o ailbrisio buddsoddiadau yn cael eu credydu neu eu codi i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae buddsoddiadau'n cynnwys adneuon arian parod lle nad oes angen arian ar gyfer cyfalaf gweithio tymor byr a'r bwriad yw cadw'r arian hwn i greu elw am fwy na 12 mis.

**Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau**

Caiff rhwymedigaeth ei mesur adeg ei chydnabod ar sail ei chost hanesyddol, a'i mesur wedyn ar sail yr amcangyfrif gorau o'r swm sydd ei angen i dalu am y rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd.

**Gwariant**

Cyfrifir am yr holl wariant ar sail croniadau. Caiff rhwymedigaeth ei chydnabod pan fydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn ymrwymo i rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliad i drydydd parti.  Mae gwariant sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol ag un gweithgaredd yn cael ei ddyrannu i'r gweithgaredd hwnnw yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol. Mae costau y gellir eu priodoli i fwy nag un categori o wariant yn cael eu dosrannu ar sail yr amcangyfrif o faint o amser staff y gellir ei briodoli i'r gweithgaredd hwnnw yn ystod y flwyddyn.

**Cyfraniadau pensiwn**

Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar gyfer gweithwyr cymwys. Codir cyfraniad y cyflogwr am y flwyddyn i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y cyfnod y mae'n cael ei ennill gan y gweithiwr.

**Cyfrifyddu cronfeydd**

Mae'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn cynnwys cronfeydd anghyfyngedig sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn aelodau'r Cyngor er mwyn hyrwyddo amcanion y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig sy'n cael eu neilltuo yn ôl disgresiwn aelodau'r Cyngor at ddibenion penodol.

**Adneuon tymor byr**

Mae adneuon tymor byr yn symiau o arian parod sy'n cael eu cadw fel adnau mewn banciau cydnabyddedig.

**Busnes gweithredol**

Mae cronfeydd wrth gefn wedi'u cronni dros gyfnodau ariannol blaenorol i wrthsefyll unrhyw amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld, ac mae aelodau'r Cyngor (sy'n Ymddiriedolwyr hefyd) yn parhau i fabwysiadu'r dull cyfrifyddu sy'n seiliedig ar fusnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.  Un o'r mesurau a ddefnyddir i bennu busnes gweithredol yw lefel y cronfeydd wrth gefn. Gan fod y cronfeydd wrth gefn yn uwch na'r amrediad targed, mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad y gellir cyflwyno'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol heb unrhyw ansicrwydd perthnasol.

**Offerynnau ariannol**

Mae gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod i ddechrau yn ôl eu gwerth trafodiad ac yna eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.  Mae asedau ariannol sy'n cael eu cadw ar sail cost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys arian parod, arian mewn banc ac arian mewn llaw, ynghyd â dyledwyr masnach a dyledwyr eraill. Mae rhwymedigaethau ariannol sy'n cael eu cadw ar gost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys croniadau, masnach a chredydwyr eraill.

## 2. Incwm o weithgareddau elusennol

Ffioedd cofrestru yw'r brif ffynhonnell incwm, gydag incwm arall a dderbynnir wedi'i nodi yn y dadansoddiad isod:

| | **2025 £** | 2024 £ |
|---|---|---|
| Ffioedd cofrestru | **2,961,625** | **2,877,915** |
| Incwm arall | **9,872** | **24,946** |
| **Cyfanswm** | **2,971,497** | **2,902,861** |

## 3. Incwm o fuddsoddiadau

| | **2025 £** | 2024 £ |
|---|---|---|
| Llog o fuddsoddiadau (gan gynnwys llog banc) | **21,961** | **20,834** |
| **Cyfanswm** | **21,961** | **20,834** |

## 4. Gweithgareddau elusennol

Dyma'r gwariant ar gyfer pob swyddogaeth yn ystod y flwyddyn:

| | **Uniongyrchol £** | **Costau cymorth £** | **Cyfanswm 2025 £** | Cyfanswm 2024 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau elusennol** | | | | |
| Addysg a safonau proffesiynol | 652,447 | 328,103 | **980,550** | 822,964 |
| Cofrestru | 177,533 | 214,965 | **392,498** | 411,571 |
| Addasrwydd i ymarfer | 859,657 | 328,104 | **1,187,761** | 1,027,509 |
| Cyfathrebu ac ymchwil | 490,415 | 260,220 | **750,635** | 732,546 |
| **Cyfanswm** | **2,180,052** | **1,131,392** | **3,311,444** | 2,994,590 |

### 5. Costau cymorth

| | Rheoli £ | Llywodraethiant £ | Gweinyddu £ | TG £ | Cyfanswm 2025 £ | Cyfanswm 2024 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau cymorth** | | | | | | |
| Addysg a safonau proffesiynol | 145,412 | 70,108 | 74,048 | 38,535 | **328,103** | 297,582 |
| Cofrestru | 95,270 | 45,933 | 48,515 | 25,247 | **214,965** | 235,585 |
| Addasrwydd ymarfer | 145,412 | 70,108 | 74,049 | 38,535 | **328,104** | 409,174 |
| Cyfathrebu ac ymchwil | 115,327 | 55,603 | 58,728 | 30,562 | **260,220** | 297,582 |
| **Cyfanswm** | **501,421** | **241,752** | **255,340** | **132,879** | **1,131,392** | 1,239,923 |

Ail-godwyd costau cymorth (TG, Llywodraethu ac Adnoddau Canolog ac Ariannu) ar draws meysydd busnes eraill ar sail nifer y staff yn yr adrannau hynny.

### 6. Llywodraethiant

| | 2025 £ | 2024 £ |
|---|---|---|
| **Costau llywodraethiant** | | |
| Ffioedd aelodau'r Cyngor (gan gynnwys Yswiriant Gwladol) | **106,980** | 103,992 |
| Ffioedd cymdeithion y cyngor (gan gynnwys Yswiriant Gwladol) | **4,800** | 3,800 |
| Costau llywodraethu eraill | **129,972** | 112,662 |
| **Cyfanswm** | **241,752** | 220,454 |

## Taliadau i aelodau anweithredol

### Aelodau'r Cyngor

Yn y flwyddyn adrodd, cyfanswm gwerth cydnabyddiaeth a dalwyd i aelodau'r Cyngor (cyfanswm o 10) oedd £103,700, gan gynnwys lwfansau cyfrifoldeb (2024: £101,250). Ar ben hynny, roedd cyfanswm y treuliau a dalwyd yn uniongyrchol i aelodau'r Cyngor ac i gyflenwyr am deithio a llety yn £25,327 (2024: £24,684).

| Enw | Swydd | Lleoliad | Cyfradd flynyddol £ | Yswiriant Gwladol £ |
|---|---|---|---|---|
| Jo Clift | Cadeirydd | Llundain | 30,000 | 2,884 |
| Daniel Bailey | Aelod | Wolverhampton | 7,800 | - |
| Harry Barton[1] | Aelod | Birmingham | 10,050 | 132 |
| Gill Edelman | Aelod | Dorking | 7,800 | - |
| Elizabeth Elander[2] | Aelod | Swydd Gaer | 10,050 | 132 |
| Sandie Ennis | Aelod | Llundain | 7,800 | - |
| Caroline Guy | Aelod | Ynys Wyth | 7,800 | - |
| Simeon London[3] | Aelod | Yr Alban | 7,800 | - |
| Patricia McClure[4] | Aelod | Gogledd Iwerddon | 10,050 | 132 |
| Chris Stockport[5] | Aelod | Cymru | 4,550 | - |
| **Cyfanswm** | | | **103,700** | **3,280** |

Mae'r treuliau a ddangosir yn y tabl uchod yn cynnwys y rhai a delir yn uniongyrchol i aelodau'r Cyngor a'r rhai a delir i gyflenwyr i dalu am gostau teithio a llety.

Mae Deddf Osteopathiaid 1993 yn caniatáu taliadau cydnabyddiaeth i aelodau'r Cyngor.

### Cymdeithion y cyngor

Mae rhaglen Cymdeithion y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn caniatáu i ddau osteopath gysgodi'r Cyngor a mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd i ddatblygu eu sgiliau llywodraethu ac arwain. Nid oes gan gymdeithion y cyngor hawliau pleidleisio.

| Enw | Swydd | Lleoliad | Cyfradd flynyddol £ | Yswiriant Gwladol £ |
|---|---|---|---|---|
| Gabrielle Anderson | Cydymaith y cyngor | Plymouth | 1,400 | - |
| Harriet Lambert[6] | Cydymaith y cyngor | Llundain | 200 | - |
| Laura Turner[7] | Cydymaith y cyngor | Caerwysg | 3,200 | - |
| **Cyfanswm** | | | **4,800** | |

1 Yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb o £2,250 a delir fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
2 Yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb o £2,250 a delir fel Cadeirydd y Pwyllgor Pobl. Daeth y tymor i ben ym Mawrth 2025
3 Daeth y tymor i ben ym mis Mawrth 2025
4 Yn cynnwys lwfans cyfrifoldeb o £2,250 a delir fel Cadeirydd y Pwyllgor Polisi ac Addysg.
5 Yn ei swydd rhwng mis Medi 2024 a mis Chwefror 2025
6 Daeth y tymor i ben ym mis Mawrth 2024; talwyd fel ôl-daliad o fis
7 Daeth y tymor i ben ym mis Mawrth 2025

**Aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol**

Yn ystod y flwyddyn adrodd, talwyd ffi presenoldeb dyddiol o £330 i aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio a'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol am fynychu cyfarfodydd a gwrandawiadau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Mae aelodau'r Pwyllgor Ymchwilio hefyd yn cael lwfans darllen o £75 y dydd a ffi sgrinio o £25 am bob achos sy'n cael ei sgrinio. Hawliodd aelodau'r pwyllgorau hyn ffioedd presenoldeb dyddiol a oedd yn dod i gyfanswm o £82,961 gyda'r treuliau'n cael eu talu'n uniongyrchol i aelodau'r pwyllgor ac i gyflenwyr am deithio a llety, a oedd yn dod i gyfanswm o £15,890.

**Aelodau allanol pwyllgorau eraill**

Yn ystod y flwyddyn adrodd, talwyd ffi presenoldeb dyddiol o £330 i aelodau allanol o'r Pwyllgor Polisi ac Addysg, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Pobl am fynychu cyfarfodydd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Hawliodd aelodau cyfetholedig y pwyllgorau hyn ffioedd presenoldeb dyddiol a oedd yn £6,786 gyda'r treuliau'n cael eu talu'n uniongyrchol i aelodau'r pwyllgor ac i gyflenwyr am deithio a llety, a oedd yn dod i gyfanswm o £8,720.

**Gwariant net ar ôl codi tâl**

| | **2025**<br>**£** | 2024<br>£ |
|---|---|---|
| **Incwm net am y flwyddyn a nodir ar ôl codi tâl** | | |
| Ffioedd a dalwyd i HaysMac LLP | | |
| - Archwiliad allanol | **24,960** | 23,760 |
| Dibrisiant asedau | **56,355** | 60,310 |

**7. Costau gweithwyr a staff**

Roedd costau staff yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | **2025**<br>**£** | 2024<br>£ |
|---|---|---|
| **Costau staff** | | |
| Cyflogau | **1,402,573** | 1,369,045 |
| Yswiriant Gwladol y Cyflogwr | **146,666** | 139,592 |
| Pensiynau | **134,315** | 148,273 |
| **Cyfanswm** | **1,683,554** | 1,656,910 |

Ym mlwyddyn ariannol 2024-25, roedd costau diswyddo a dileu swyddi o £dim (2024: £22,000).

| | **2025** | 2024 |
|---|---|---|
| **Nifer cyfartalog y staff** | | |
| Swyddfa'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd | **5** | 4 |
| Addysg a Safonau Proffesiynol | **6** | 5 |
| Cofrestru | **4** | 4 |
| Adnoddau | **3** | 3 |
| Addasrwydd i Ymarfer | **7** | 7 |
| Cyfathrebu | **5** | 5 |
| **Cyfanswm** | **30** | 28 |

**Taliad cydnabyddiaeth i bersonél rheoli allweddol**

Mae'r staff rheoli allweddol yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, y Cyfarwyddwr Addysg, Safonau a Datblygu, a'r Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer.

Cyfanswm enillion y staff rheoli allweddol oedd £402,905 (2024: £391,391)

Cyfanswm y staff ag enillion trethadwy yn perthyn i fandiau cyflog uwch oedd:

| | **2025**<br>**£** | 2024<br>£ |
|---|---|---|
| £60,000-£70,000 | **1** | 1 |
| £70,000-£80,000 | **0** | 0 |
| £80,000-£90,000 | **0** | 0 |
| £90,000-£100,000 | **0** | 1 |
| £100,000-£110,000 | **2** | 1 |
| £110,000-£120,000 | **0** | 0 |
| £120,000-£130,000 | **1** | 1 |

**Costau pensiwn**

Roedd y cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â chynllun pensiwn y Cyngor yn cynnwys cyfraniadau a oedd yn daladwy am y flwyddyn o £134,315 (2024 - £148,273)

## 8. Asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol

### Asedau anniriaethol

| | Asedau anniriaethol £ |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | **20,000** |
| Ychwanegiadau | **213,962** |
| Gwarediadau | – |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **233,962** |
| **Dibrisiant** | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | **20,000** |
| Tâl am y flwyddyn | – |
| Gwarediadau | – |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **20,000** |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | – |
| Ar 31 Mawrth 2025 | **213,962** |

Pob ased anniriaethol yn gysylltiedig â Meddalwedd Gyfrifiadurol.

**Asedau Sefydlog Diriaethol**

| | Dodrefn swyddfa £ | Caledwedd cyfrifiadurol £ | Adeilad rhydd-ddaliadol £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 114,970 | 24,648 | 2,244,172 | **2,383,790** |
| Ychwanegiadau | – | 12,164 | – | **12,164** |
| Gwarediadau | – | – | – | – |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 114,970 | 36,812 | 2,244,172 | **2,395,954** |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 85,243 | 13,944 | 737,332 | **836,519** |
| Tâl am y flwyddyn | 10,354 | 7,815 | 38,185 | **56,354** |
| Gwarediadau | – | – | – | – |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 95,597 | 21,759 | 775,517 | **892,873** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 29,727 | 10,704 | 1,506,840 | **1,547,271** |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 19,373 | 15,053 | 1,468,655 | **1,503,081** |

**9. Buddsoddiadau**

| | **2025**<br>**£** | 2024<br>£ |
|---|---|---|
| Ar ddechrau'r flwyddyn | 1,269,682 | **1,167,992** |
| Incwm wedi'i ailfuddsoddi | 22,466 | **19,677** |
| Ffioedd a gymerwyd | (11,218) | **(12,548)** |
| Enillion buddsoddi | 36,630 | **94,561** |
| **Cyfanswm y portffolio** | 1,317,560 | **1,269,682** |

Mae buddsoddiadau'n cael eu rheoli gan Brewin Dolphin ac yn cael eu cadw mewn portffolio risg ganolig amrywiol, sy'n cynnwys cymysgedd o ecwiti (£641,121), bondiau (£465,916), ac asedau eraill, gan gynnwys arian parod (£210,523).

**10. Dyledwyr**

| | **2025**<br>**£** | Wedi'i Ailddatgan<br>2024<br>£ |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | 21,173 | **10,622** |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 170,886 | **117,855** |
| Dyledwyr eraill | 1,252 | **904** |
| **Cyfanswm dyledwyr** | 193,311 | **129,381** |

Mae'r ailddatganiad o symiau yn y cyfnod cymharol ar gyfer dyledwyr, credydwyr, ac incwm gohiriedig yn nodiadau 10, 11 a 12 yn ymwneud â'r newid yn y sail ar gyfer cydnabod dyledwyr a chredydwyr am ffioedd cofrestru a hysbyswyd cyn diwedd y flwyddyn. Yn hanesyddol, nid oedd rhai symiau a gasglwyd cyn diwedd y flwyddyn wedi'u dileu oddi wrth ddyledwyr gan arwain at orddatgan dyledwyr a chredydwyr. Yr effaith ar y symiau cymharol oedd £278,229 ar ddyledwyr a chredydwyr. Ni fu unrhyw effaith ar yr incwm a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn gymharol.

### 11. Credydwyr

| | **2025** **£** | Wedi'i ailddatgan 2024 £ |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | **49,968** | 47,308 |
| Incwm gohiriedig | **702,322** | 621,893 |
| Croniadau | **97,133** | 77,445 |
| Credydwyr eraill | **8,134** | 6,794 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | **47,252** | 37,361 |
| **Cyfanswm credydwyr** | **904,809** | 790,801 |

### 12. Incwm gohiriedig

| | **2025** **£** | Wedi'i ailddatgan 2024 £ |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | **621,893** | 818,067 |
| Swm a ohiriwyd yn ystod y flwyddyn | **702,322** | 621,893 |
| Swm a ryddhawyd i'r datganiadau ariannol | **(621,893)** | (818,067) |
| **Cyfanswm incwm gohiriedig** | **702,322** | 621,893 |

Caiff incwm o ffioedd cofrestru blynyddol ei ohirio a'i ryddhau i'r datganiad o weithgareddau ariannol ar sail llinell syth dros y cyfnod y mae'r ffi gofrestru'n berthnasol iddo. Mae'r holl incwm gohiriedig a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol yn cael ei ryddhau i'r datganiad o weithgareddau ariannol yn y flwyddyn ganlynol.

### 13. Cronfeydd wrth gefn

| | Ar 1 Ebrill 2024 £ | **Incwm** **£** | **Gwariant** **£** | **Wedi'i drosglwyddo** **£** | **Ar 31 Mawrth 2025** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd cyffredinol wrth gefn | 2,386,217 | 3,030,088 | (3,311,444) | (39,476) | 2,065,385 |
| Cronfeydd dynodedig wrth gefn | | | | | |
| - Buddsoddi mewn TG | 152,093 | – | – | – | 152,093 |
| - Prosiect Gwerthoedd | 10,000 | – | – | (10,000) | – |
| - Canfyddiadau Unigolion Cofrestredig | 34,120 | – | – | (30,348) | 3,772 |
| - Cyfreithiol cyffredinol | 150,000 | – | – | (26,969) | 123,031 |
| - Costau seilwaith NCOR | 150,000 | – | – | (26,500) | 123,500 |
| - Datblygu gwefan | – | – | – | 136,005 | 136,005 |
| - Confensiwn iO 2023 | – | – | – | (2,712) | (2,712) |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** | 2,882,430 | 3,030,088 | (3,311,444) | – | **2,601,074** |

Mae'r cronfeydd dynodedig yn ymwneud â'r buddsoddiad cynyddol mewn Technoleg Gwybodaeth (TG) i symleiddio ein gweithgareddau (£152,093), y Prosiect Gwerthoedd (gwneud penderfyniadau ar y cyd) (cronfa wrth gefn wedi'i defnyddio'n llawn yn ystod y flwyddyn), yr Arolwg o Ganfyddiadau Unigolion Cofrestredig i gasglu safbwyntiau a gwybodaeth gan gofrestryddion (£3,772), cronfa gyfreithiol gyffredinol i liniaru costau nad oedd modd eu rhagweld (£123,031), cronfa i gefnogi gwaith parhaus y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig ("NCOR"); pum mlynedd o gostau seilwaith wedi'u neilltuo (£123,500), cronfa wrth gefn ar gyfer prosiect datblygu'r wefan (£136,005). Roedd gorwariant yn ystod y flwyddyn hefyd yn ymwneud â chronfa wrth gefn flaenorol ar gyfer cyfraniadau i'r confensiwn iO yn 2023.

**Cymharu â'r flwyddyn flaenorol**

| | Ar 1 Ebrill 2023 £ | **Gwariant** **£** | **Incwm** **£** | **Wedi'i drosglwyddo** **£** | **Ar 31 Mawrth 2024** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | | | |
| Cronfeydd cyffredinol wrth gefn | 2,636,671 | 3,018,256 | (2,994,590) | (274,120) | **2,386,217** |
| Cronfeydd dynodedig wrth gefn | 222,093 | – | – | 274,120 | **493,213** |
| | 2,858,764 | 3,018,256 | (2,994,590) | – | **2,882,430** |

**14. Trafodiadau partïon cysylltiedig**

Mae Matthew Redford, Prif Weithredwr a Chofrestrydd, yn un o Ymddiriedolwyr y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig.

Mae Dr Daniel Bailey, Aelod o'r Cyngor, yn Gymrawd Ymchwil o'r Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Osteopathig.

Nid oes unrhyw achosion uchel lys heb eu datrys.

**15. Rhwymedigaethau digwyddiadol**

Rydym wedi ystyried dyfarniad Somerville v y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), lle canfu'r Tribiwnlys Cyflogaeth fod Mr Somerville yn weithiwr, o ran a yw'n debygol y gallem wynebu rhwymedigaethau tebyg. Nid oes unrhyw hawliadau wedi'u gwneud yn erbyn y Cyngor Osteopathig Cyffredinol hyd yma, ac felly nid oes unrhyw rhwymedigaeth wedi'i chynnwys yn y cyfrifon hyn.

Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
Osteopathy House
176 Tower Bridge Road
Llundain SE1 3LU

020 7357 6655
info@osteopathy.org.uk
**osteopathy.org.uk**

Mae'r GOsC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1172749)